



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Ailgydbwyso gofal a chymorth

Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well.

29 Mehefin 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb o'r ymatebion	3
Cyflwyniad	5
Cefndir	5
Ymgysylltu	6
Y Camau Nesaf	7
Cwestiwn 1- Ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?	8
Cwestiwn 2- Ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?	12
Cwestiwn 3- Ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?	16
Cwestiwn 4- Ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?	23
Cwestiwn 4a- Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?	23
Cwestiwn 5- A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?	29
Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal ieuchyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?	29
Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?	29
Cwestiwn 6- Ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?	33
Cwestiwn 7- Ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?	37
Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?	37
Cwestiwn 8 - A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?	45
Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?	45
Cwestiwn 10 - Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?	49

Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?	49
Cwestiynau am y Gymraeg	52
Cwestiwn 11- Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?	52
Cwestiwn 12- Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal mewn Galar yng Nghymru gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. ..	52
Cynigion eraill.....	56
Cwestiwn 9- A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddatl dros newid?	56
Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?	56
Cwestiwn 13 - Unrhyw sylw arall/sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y cynnig i ddatblygu deddfwriaeth newydd?	56
Atodiad A – Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad	67

Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 155 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, gyda bron i dri chwarter o'r ymatebion yn dod o lywodraeth leol a'r trydydd sector. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn galw am fwy o eglurder ynghylch y cynigion ac yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnynt i ateb cwestiwn yr ymgynghoriad. Roedd ymrwymiad aruthrol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion polisi ymhellach, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd y mwyafrif yn cytuno mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad ar y canlynol:

- Y cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau;
- Arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael;
- Defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau; ac
- Angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod yr heriau a nodwyd yn y ddadl dros newid ac yn cytuno ar y cynigion ar gyfer system sy'n fwy syml, sy'n canolbwyntio ar ansawdd a gwerth cymdeithasol, sy'n cael ei harwain yn strategol ac nid yn adweithiol, sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sydd wedi'i gwreiddio mewn partneriaeth a gwaith integredig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau pobl. Roedd nifer o'r ymatebion yn credu bod angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith y diwygiadau arfaethedig ar bobl, eu llesiant a'u hawliau. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn weddill yn tueddu i fod yn fwy gwrthwynebol, heb farn mwyafrif clir. Dewisodd nifer sylweddol o ymatebwyr i beidio â datgan a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiynau. Serch hynny, roeddent yn nodi testun naratif manwl o'u safbwyntiau.

Ar y cyfan, y farn oedd y byddai fframwaith cenedlaethol yn fuddiol, petai'n cael ei ddiffinio'n glir, yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi i benderfyniadau gael eu gwneud yn lleol. Yn anad dim roedd darparwyr yn croesawu'r potensial i leihau cymhlethdod a chael gwared ar ddyblygu neu wastraff, yn enwedig pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol. Hefyd, croesawyd mwy o bwyslais ar gomisiynu yn ôl ansawdd, canlyniadau, hawliau a llesiant. Ar ben hynny, roedd llawer o'r ymatebion yn nodi bod manteision y fframwaith yn cynnwys annog a hwyluso integreiddio a chydgomisiynu. Nodwyd y dylai unrhyw fframwaith cenedlaethol gyd-fynd â gwerthoedd y system gyfan a ddisgrifir yn 'Cymru Iachach', sy'n canolbwyntio ar gydlynw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor, gan ddisgrifio modelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lefel genedlaethol, sydd wedyn yn cael eu rhoi ar waith i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo fod llawer i'w ddysgu o'r ymdrechion presennol i safoni arferion comisiynu yn y sector gofal cymdeithasol. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn yn credu y byddai fframwaith cenedlaethol yn anhyblyg, ar draul ymreolaeth leol. Tynnwyd sylw at

bwysigrwydd amgylchiadau lleol a gallu sefydliadau i ddiffinio a sicrhau darpariaeth mewn ffordd sy'n cwrdd â'u blaenoriaethau eu hunain.

Darparwyd amrywiaeth o ddehongliadau am bwrpas swyddfa genedlaethol. Roedd y rhai a oedd o blaid swyddfa yn credu y dylid cyfuno gweithgareddau rhai o'r grwpiau cenedlaethol presennol lle mae gwerth ychwanegol, megis i leihau dyblygu, cyfuno adnoddau a sicrhau mwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan lywodraeth leol yn cefnogi unrhyw newid strwythurol ac roeddent yn galw am ffurfioli'r strwythurau presennol neu sefydlu swyddfa genedlaethol yn y llywodraeth i leihau biwrocratiaeth. Roedd eraill yn teimlo bod angen i swyddfa genedlaethol fod yn annibynnol ar y llywodraeth er mwyn dal partneriaid statudol i gyfrif a meithrin cysylltiadau â'r farchnad. Roedd y rheini a oedd yn dewis peidio â chytuno nac anghytuno yn teimlo bod angen mwy o fanylion am gylch gwaith swyddfa genedlaethol a pha grwpiau cenedlaethol presennol oedd yn cael eu hystyried; ac roeddent yn rhybuddio am haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth, ac y byddent yn peri dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau gyda sefydliadau eraill.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod dyluniad a strwythur Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn dod o'r trydydd sector a'r sector annibynnol a chan ddinasyddion. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion hyn at heriau o ran y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi swyddogaethau cyfredol ar waith yn effeithiol (mewn perthynas â thryloywder, atebolrwydd, cydgynhyrchu a mesur canlyniadau ac effaith). Roedd galwadau am adolygiad ffurfiol o'u strwythur, eu haelodaeth a sut maent yn cael eu ffurfio ar hyn o bryd fel rhan o unrhyw ddiwygio yn y dyfodol. Ar y llaw arall, roedd cyrff statudol yn teimlo bod y darpariaethau deddfwriaethol presennol i gefnogi integreiddio a chyllidebau cyfun eisoes yn ddigonol i alluogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau presennol. Roedd llawer o'r ymatebion yn teimlo y byddai sefydlu endid cyfreithiol arall yn creu cymhlethdod a biwrocratiaeth ddiangen, yn enwedig i gomisiynwyr. Tynnwyd sylw at y berthynas rhwng integreiddio ar lefel leol a rhanbarthol mewn llawer o'r ymatebion, gan gynnwys pwysigrwydd cynllunio a darparu gwasanaethau mor agos â phosibl at boblogaethau lleol. Tynnodd rhai sylw at y gwelliannau parhaus a wnaed gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn lle hynny roeddent yn galw am gryfhau'r trefniadau presennol.

Gofynnwyd cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd nifer o'r ymatebion yn sôn am yr anawsterau o ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar lefel leol a'r heriau mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu hwynebu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dyletswyddau presennol o ran y Gymraeg. Roedd consensws bod yn rhaid i'r Gymraeg fod wrth wraidd y gwaith pellach i ddatblygu polisïau, dylai'r deunyddiau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac fe ddylai fod yn ofynnol i unrhyw gorff newydd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Cyflwyniad

Cefndir


Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn, Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ar 12 Ionawr 2021 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos¹, a ddaeth i ben ar 6 Ebrill. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am y cynigion i gyflwyno deddfwriaeth a pholisi i ailgydbwyso gofal a chymorth i wireddu'r weledigaeth sydd wedi'i nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ystyr ailgydbwyso yw...

...Symud oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.
Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.
Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.
Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.
Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Mae rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A, gyda rhai'n ddiennw yn ôl y gofyn. At ei gilydd, cafwyd 155 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion hynny. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl sector yn Ffigur 1.



Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiynau'r ymgynghoriad. Nid yw'r ymatebwyr a ddewisodd beidio â datgan a oeddent yn

¹ [Ymgynghoriad Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth](#)

cytuno, yn anghytuno neu'n tueddu i beidio â chytuno nac anghytuno â'r cwestiynau wedi'u cynnwys yn y data a ddarperir yn Ffigurau 2-10 yn y ddogfen hon.

Drwy gydol yr ymatebion, nodwyd nifer o themâu craidd, sydd wedi'u rhestru isod:

- Canlyniadau
- Cydgynhyrchu
- Eiriolaeth
- Gwerth cymdeithasol
- Diwylliant ac arweinyddiaeth
- Y Gymraeg
- Cyllid
- Taliadau uniongyrchol
- Deddfwriaeth caffael
- Gweithlu.

Mae'r safbwyntiau yn erbyn y themâu hyn wedi'u cynnwys yng nghrynodeb yr ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad ac yn cael sylw penodol o dan yr adran 'Cwestiwn 9 a 13' gyda'i gilydd.

Ymgysylltu

Cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaethau cyn ymgynghori. Sefydlwyd grŵp cyfeirio Llywodraeth Cymru gyda chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus (drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cydffederasiwn y GIG, Gofal Cymdeithasol Cymru), y trydydd sector (drwy CGGC) a'r sector annibynnol (drwy Fforwm Gofal Cymru/ Fforwm Darparwyr Cenedlaethol). Cynhaliwyd trafodaethau ar lefel swyddogol hefyd gyda'r Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol, Consortia Comisiynu Plant Cymru a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol.

Cadeiriodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Cyfeirio Gweinidogol gydag aelodau o AaGIC, CLILC ac Aelodau Cabinet awdurdodau lleol, cadeiryddion byrddau iechyd y GIG a Chyddfederasiwn Cymru. Yn ogystal â hynny, roedd y Dirprwy Weinidog wedi cwrdd â chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles CLIC o gynghorwyr llywodraeth leol cyn dechrau'r ymgynghoriad ar y papur gwyn.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyhoeddi'r ymgynghoriad, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad cabinet ysgrifenedig² a rhoddodd ddatganiad llafar³ i aelodau'r Senedd. Ar ben hynny, roedd cyfrif Twitter Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi trydar dolenni i dudalen we'r ymgynghoriad (drwy gydol y cyfnod ymgynghori) ac anfonwyd dolen e-bost i'r ymgynghoriad at randdeiliaid a grwpiau cynrychiolwyr cenedlaethol. I gefnogi hygyrchedd i'r ymgynghoriad, datblygwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen

² [Datganiad y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i aelodau'r Senedd am y Papur Gwyn](#)
³ [Cofnod ysgrifenedig o ddatganiad llafar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Papur Gwyn ar Ailgydbwysu Gofal a Chymorth](#)

ymgyngori a'r ffurflen ymateb, a chafodd fideo ymgynghori⁴ ei lwytho i fyny i sianel YouTube Llywodraeth Cymru, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo ar Twitter.

- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus ar-lein ac fe ddaeth mwy na 110 o unigolion o bob rhan o'r sector iddynt. Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgynghori, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cwrdd â chyrff a grwpiau cynrychioliadol, gan gynnwys y canlynol:
- Comisiynwyr yng Nghymru; swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned
- Prif weithredwyr y GIG
- Cyfarwyddwyr cynllunio'r GIG
- Cadeiryddion byrddau iechyd y GIG
- Gweithgorau ymateb i'r ymgynghoriad CGGC
- Wales Vision Forum
- Grŵp Diddordeb Arbennig Anableddau Dysgu
- Cadeiryddion, is-gadeiryddion a chydlynwyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Rhwydwaith Aelodau Cabinet Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles CLILC
- Gweithgorau ymateb i'r ymgynghoriad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Grwpiau Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr a'r Economi Sylfaenol
- Grŵp ymateb i'r ymgynghoriad y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- Penaethiaid gwasanaethau cymdeithasol Oedolion
- Consortia Comisiynu Plant Cymru
- Yr Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol

Y Camau Nesaf


Cyhoeddir y crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd yn bwysig ymgysylltu'n helaeth â'r sector a'r dinasyddion eu hunain er mwyn datblygu polisi wedi'i gydgyhyrchu.

⁴ [Fideo'r ymgynghoriad ar y papur gwyn Ailgydbwyso gofal a chymorth](#)

Cwestiwn 1- Ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 1 wedi'i nodi yn Ffigur 2.



Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau (71%). Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod cymhlethdod yn cyfyngu ar gyflymder y gwella ond fod hynny'n cynnwys nifer o ffactorau. Credwyd bod y cymhlethdod yn ganlyniad i nifer o bartneriaethau, trefniadau cyllido a threfniadau codi tâl gwahanol, cyfraddau comisiynu gwahanol, arferion anghyson ledled Cymru, rheolau caffael anhyblyg, dyblygu sylweddol, diffyg gweledigaeth neu ddealltwriaeth gyffredin o integreiddio, gwasanaethau digyswllt, cyfundrefnau arolygu ar wahân ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a chynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol. Nid oedd pob rheswm yn cael ei nodi fel ffactor sy'n llesteirio gwella gwasanaethau, fodd bynnag nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gododd y ffactorau hyn eu bod yn creu amgylchedd mwy heriol ar gyfer gwella.

Roedd llai na chwarter o'r ymatebion yn tueddu i anghytuno neu anghytuno â'r cwestiwn. Nododd yr ymatebion nad yw bob amser yn hawdd osgoi cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol. Dywedodd llawer fod cymhlethdod yn anochel mewn system sy'n cynnwys nifer o rannau rhyng-gysylltiedig a gwahanol, ac mae hyn yn aml o ganlyniad i amrywiad sylweddol mewn anghenion amrywiol ar draws gwahanol gymunedau yng Nghymru. Roedd ymatebion y sector cyhoeddus yn nodi bod y system bresennol wedi'i chynllunio fel bod modd gwneud penderfyniadau mor agos

â phosibl at bobl, ac roeddent yn teimlo bod gweithio integredig ar lefel fwy lleol yn gallu gwella gwasanaethau. Daeth hyn yn fwy amlwg o'r ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar effaith proffiliau demograffig ac ystyriaethau daearyddol, ee gwledig o'i gymharu â chymunedau trefol, lefelau amddifadedd a ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill.

O safbwynt dinesydd, roedd y trydydd sector ac unigolion yn aml yn nodi fod y system iechyd a gofal cymdeithasol yn anodd iawn i'w defnyddio gan unigolion a theuluoedd. Dywedodd un ymateb fod risg amlwg iawn yn perthyn i wasanaethau sy'n or-gymhleth, sef mai'r bobl sydd angen gofal a chymorth yw'r lleiaf tebygol o allu cael gafael ar y gofal a'r cymorth maen nhw eu hangen. Roedd pobl yn adrodd fod diffyg gwybodaeth hygyrch, cyfathrebu gwael rhwng asiantaethau a'u bod yn ansicr beth sydd ar gael iddynt a beth ydy eu hawliau. Roedd ymateb gan un dinesydd yn nodi mai'r hyn sy'n bwysig yw i bawb weithio'n well gyda'i gilydd a theimlo'n fwy unedig. Dywedodd ymatebydd arall y byddai symleiddio'r ffordd y caiff y sector gofal cymdeithasol ei reoli yn gwella'r defnydd o wasanaethau presennol a'i fod yn hanfodol os ydy pobl am gael eu grymuso i gyrraedd eu potensial llawn. Awgrymodd un ymateb gan y trydydd sector fod angen rhoi mwy o bwerau i'r rhai sy'n derbyn gofal a'u gofalgwyr, i sicrhau eu bod yn barod i ddweud eu dweud am y gwasanaethau maent eu hangen ac yn eu derbyn, ac i roi adborth am y gwasanaethau maent wedi'u derbyn er mwyn gwella'r ddarpariaeth ac ansawdd y gwasanaeth.

Roedd nifer o wahanol ymatebwyr wedi cyfeirio at gymhlethdod y gofal a'r cymorth i blant a phobl ifanc, ac yn enwedig y gwahaniaethau o ran cymhlethdod sy'n bodoli mewn gwasanaethau plant o'i gymharu â gwasanaethau oedolion. Nodwyd mai'r prif rwystr i wella gwasanaethau i blant yn ôl pob tebyg yw'r arferion anghyson rhwng awdurdodau lleol a'r diffyg integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'i bod yn aml yn anodd cael gafael ar y cymorth priodol i blant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Yn benodol, nodwyd bod yr anhawster o ran cynnig llety priodol gyda gofal yn gyson i bobl ifanc yn parhau i fod yn annerbyniol er gwaethaf yr ymdrechion i wella, a bod angen ei adolygu a'i wella ar frys.

Dadleuodd rhai ymatebwyr nad y rhannau amryfal sydd i gyfrif am y cymhlethdod ond y diffyg cydlyniant. Disgrifiodd nifer sylweddol o ymatebion system gyda chymhlethdod cynhenid oherwydd y gofyniad i sefydliadau weithio ar draws ffiniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol – gan feithrin cysylltiadau a phartneriaethau gwahanol gydag ystod o ddibenion a gwerthoedd sylfaenol. Tynnwyd sylw at faterion sylweddol yn ymwneud â thryloywder a chyfathrebu rhwng gwahanol wasanaethau, a nodwyd bod cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol yn gyfyngedig. Dywedodd un ymatebydd y gellid dadlau bod rhywfaint o'r cymhlethdod wedi deillio o batrwm hanesyddol o orfod rheoli cyllidebau ar lefel leol a pheidio ag edrych ar ddulliau o weithredu ar y cyd ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd partner. Dywedodd un arall fod perygl i bartneriaid weithredu er budd gorau eu sefydliadau eu hunain ar draul partneriaid eraill, a bod cymhlethdod weithiau'n cael ei achosi gan agendâu a chyfrifoldebau cystadleuol (er enghraifft, anghydfodau cyllido'r GIG ac awdurdodau lleol).

Roedd y sylwadau ynghylch y farchnad gofal a chymorth yn fwy cymysg. Nododd rhai fod natur wasgaredig y sector gofal cymdeithasol sy'n cynnwys nifer o

sefydliadau bach yn bennaf yn golygu nad yw'n ddigon gwydn, ei fod yn fregus ac o ganlyniad mae'n arwain at brosesau rheoli contractau sy'n cymryd llawer o amser. Tynnodd nifer sylweddol o ymatebwyr sylw at 22 o wahanol ffyrdd posibl o gomisiynu sawl math o wasanaeth a nifer fawr o ddarparwyr yn gweithio yn yr un ardal, sy'n golygu ei bod hi'n anodd iddynt weithio â'i gilydd neu gyda'u hawdurdodau lleol. Nodwyd bod yr amrywiadau'n ymwneud â sut yr eir ati i fidio, sut y cyfrifir cyfraddau ffioedd, sut y mesurir perfformiad ac a yw comisiynu'n canolbwyntio ar ganlyniadau ai peidio. Nododd un ymateb gan y sector cyhoeddus ei bod yn anodd meithrin cysylltiadau comisiynu strategol sy'n annog arloesedd pan fo cynifer o ddarparwyr yn y farchnad a llawer o adnoddau comisiynu'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol wedi'u clymu yn elfennau cytundebol y cylch comisiynu.

I'r gwrthwyneb, nid oedd eraill yn cytuno bod nifer y darparwyr yn arwydd o'r cymhlethdod, mewn system sy'n canolbwyntio ar werth cymdeithasol roeddent yn credu y gellid ystyried hyn yn nodwedd o sector gofal cymdeithasol arloesol ac ymatebol yn y gymuned sy'n ymateb i angen lleol ac sy'n cynnig buddion i bobl a mannau lleol. Atgyfnerthwyd gallu pob darparwr i ddarparu gwerth cymdeithasol drwy nifer o ymatebion. Nododd un ymatebydd fod gorgyflenwi darparwyr yn gallu arwain at ddiffyg ffocws ar ansawdd a ras i'r gwaelod o ran telerau ac amodau, ond gall tangyflenwi a nifer fach o ddarparwyr arwain at lesteirio arloesedd a gall leihau llais a rheolaeth y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Roedd nifer o'r ymatebion yn teimlo mai'r ffordd orau o ddiwallu anghenion yw drwy amrywiaeth o sefydliadau a bod angen cystadleuaeth yn y farchnad er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaethau.


Roedd nifer sylweddol o'r ymatebion yn ystyried y model cyllido presennol ar gyfer gofal cymdeithasol. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod y trefniadau cyllido presennol yn effeithio ar y ffordd y mae gofal a chymorth yn cael eu comisiynu a'u darparu. Credai'r ymatebwyr fod tangyllido gofal cymdeithasol wedi arwain at ganolbwyntio ar leihau costau. Mae'r effaith monopsoni yn cael ei disgrifio fel ffactor sy'n atal gwella gwasanaethau ynddo'i hun, gyda dim cyllid bron yn cael ei ddarparu fel buddsoddiad i gefnogi'r sector i arloesi a gwella, nac i fuddsoddi yn y gweithlu. Yn ogystal â hynny, disgrifiwyd caffael fel rhywbeth sy'n cyfyngu gan ei fod yn atal darparwyr rhag gallu buddsoddi yn y gweithlu pan fydd contractau'n cael eu hail-dendro'n aml. Soniwyd yn aml fod recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol yn ffordd o sicrhau gwelliannau yn y sector, yn enwedig o ystyried y gwahaniaethau o fewn telerau ac amodau'r GIG. Roedd yr ymatebion yn dangos bod trosiant uchel o staff mewn rhai sectorau yn effeithio ar barhad gofal a'r gallu i feithrin cysylltiadau dibynadwy rhwng y bobl sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n rhoi gofal.

Hefyd, nodwyd bod cymhlethdod yn bodoli ar draws y dirwedd iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd bod gofal cymdeithasol yn wasanaeth sy'n seiliedig ar brawf modd, yn wahanol i ofal y GIG sydd i'w gael am ddim yn y man darparu i raddau helaeth. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cynnwys y rhai y telir amdanynt ac a gomisiynir gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector neu'r unigolyn a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd rhai o'r ymatebion yn tynnu sylw at y cymhlethdodau sy'n wynebu'r rheini sy'n ariannu eu hunain a'r amrywiadau sylweddol yn y taliadau y maent yn eu hwynebu ledled Cymru. Roedd rhai ymatebion gan y trydydd sector yn tynnu sylw at gymhlethdodau eu trefniadau cyllido, drwy amrywiaeth o ffyrddau cyllido.

Darparodd ymatebwyr rai argymhellion o ran sut y gellid lleihau cymhlethdod drwy ddysgu gan eraill, rhannu arferion gorau, cynyddu cysondeb, lleihau gwastraff a chael gwared ar ddyblygu yn y system. Dywedodd un ymatebydd fod diffyg cydgysylltu rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru yn rhwystro gwella gwasanaethau gan nad oes trefniadau safoni i ganiatáu ar gyfer dysgu ar y cyd. Cyfeiriwyd at enghreifftiau penodol o wastraff fel dyblygu ac ailddyfeisio prosesau caffael, comisiynu gwasanaethau nad ydynt yn hyblyg o ran ymateb i anghenion sy'n newid, gan gynnwys atal a lleihau dibyniaeth a rhedeg system sy'n llesteirio cydweithio. Ar ben hynny, teimlai llawer y gellid lliniaru'r pethau hyn drwy gyd-ddealltwriaeth o ganlyniadau, ansawdd a safonau. Nododd un ymatebydd y cyfle i Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn hyn o beth i gefnogi'r ddealltwriaeth hon a chynyddu atebolrwydd a thryloywder ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol. Nodwyd bod naratif clir rhwng gwasanaethau ynghylch sut mae pob gwasanaeth yn effeithio ar bobl, gweledigaeth ar y cyd ar gyfer integreiddio a fframweithiau mesur ar y cyd i fonitro ac asesu gwelliannau yn hanfodol er mwyn gwella. Gwelwyd bod rhannu data yn edau gyffredin drwy'r holl gynigion a argymhellwyd ar gyfer cynyddu tryloywder a lleihau cymhlethdod yn y sector.

Cwestiwn 2- Ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 2 wedi'i nodi yn Ffigur 3.



Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n anghymesur ar gaffael (74%) o'i gymharu ag elfennau eraill y cylch comisiynu. Disgrifiwyd arferion caffael yn aml fel petaent yn ddiwedd ynddynt eu hunain, yn hytrach nag yn ffordd o gyflawni canlyniadau. Teimlwyd bod gormod o bwyslais ar gytundebau contract, gan gynnwys prisiau unedau a microeoli'r broses o gyflenwi gwasanaethau. Nodwyd hefyd bod capasiti comisiynu yn adnodd cyfyngedig, o'i gymharu â swyddogaethau caffael. Nododd un ymatebydd fod perthynas gref rhwng swyddogaethau comisiynu a chaffael yn hwyluso'r broses o ganfod atebion caffael effeithiol sy'n cefnogi ansawdd gwasanaethau, digonolrwydd a datblygiad y farchnad, a chysylltiadau rhwng darparwyr a chomisiynwyr.

Roedd llai na chwarter o'r ymatebion yn tueddu i anghytuno neu anghytuno â'r cwestiwn. Roedd y rheini a oedd yn anghytuno yn tynnu sylw at bwysigrwydd caffael o ran sicrhau cadernid trefniadau contract. Disgrifiwyd y broses gaffael yn aml fel un a oedd yn gwneud penderfyniadau ar wasanaethau ar sail nifer o ffactorau, gan gynnwys llais dinasyddion, dewis, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliadau sy'n ymateb, a phris.

O safbwynt dinasyddion, nododd yr ymatebion fod yr arferion caffael presennol yn rhwystro dewis i'r rhai sy'n cael gofal wrth i'r broses gael ei defnyddio i leihau costau yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau ac anghenion pobl neu ansawdd y

gwasanaeth. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y prosesau caffael presennol yn ymddangos yn anghyson â dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol o ddarparu gwasanaethau ac egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd yr adnoddau sydd ar gael i'r sector yn thema barhaus yn yr ymatebion gan bob sector. Pwysleisiodd ymatebwyr bod cyllidebau cyfyngedig a ddarperir ar sail tymor byr yn llesteirio gallu'r sector i wella, ac felly'n cynnig her o ran cynllunio tymor hir ac ysgogi arferion i ganolbwyntio ar gaffael fel ffordd o ostwng prisiau drwy dendro cystadleuol. Roedd ymateb gan y sector annibynnol yn nodi bod y ffocws caffael presennol yn arwain at wasanaethau trafodiadau nad ydynt yn cefnogi sicrhau canlyniadau i'r unigolyn. Roedd un ymateb cyffredinol gan y sector cyhoeddus yn galw am ragor o fuddsoddiad yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau bod modd gwireddu'r weledigaeth yn y Papur Gwyn, sef ailgydbwyso'r farchnad gofal a chymorth gan symud i ffordd oddi wrth bris a thuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol a thuag at reoli'r farchnad, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau.

Codwyd yr arferion caffael gwahanol ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion gan nifer o ymatebwyr. Nododd un ymateb, mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau plant, nad oes llawer o gyfle i ganolbwyntio ar ansawdd y gofal a'r canlyniadau oherwydd nad oes fawr o ddewis o leoliadau ar gael ac mae pwysau amser sylweddol i sicrhau unrhyw leoliad newydd. Mae ofn hefyd y bydd angen gwneud trefniadau 'heb eu rheoleiddio' o ganlyniad i'r ffaith nad oes lleoliad 'wedi'i reoleiddio' ar gael.

Nododd nifer sylweddol o ymatebion y sector cyhoeddus fod deddfwriaeth caffael yn hybu ac yn cyfyngu ar ymarfer. Nodwyd bod gan ddehongliadau o'r rheolau caffael gan dimau cyfreithiol y potensial i achosi gwrthdaro rhwng ymarferwyr sydd eisiau arloesedd lleol yn gyflym a swyddogion mwy gofalus sy'n mynnu glynu'n gaeth wrth reolau a safonau gweithdrefnau contractau cyfreithlon ar sail y cyngor maent yn ei dderbyn. Nododd rhai ymatebwyr nad yw Cymru bellach yn rhwym wrth deddfwriaeth yr UE ar gaffael yn sgil ymadael â'r UE, ac roeddent yn galw am ddiwygio'r rheoliadau caffael i ganiatáu mwy o ryddid wrth gyhoeddi contractau gofal cymdeithasol, gan ddysgu o waith blaenorol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol.

Ar ben hynny, mae llawer o'r ymatebion yn nodi cyd-destun y dulliau caffael corfforaethol sefydliadol, nad ydynt yn aml wedi'u teilwra i ofal cymdeithasol, sy'n ychwanegu haenau o gymhlethdod at y broses. Disgrifiwyd y modd y gall y cymhlethdod hwn gyfyngu ar arloesedd, rhoi darparwyr bach dan anfantais, rhwystro Mentrau Cymdeithasol rhag gwneud cais am contractau mwy, ei gwneud yn anodd gweithio gyda darparwyr i ddatblygu gwasanaethau newydd yn ogystal â'i gwneud yn anodd newid gwasanaethau o fewn cyfnod y contract. Tynnwyd sylw hefyd at y ffordd y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cael eu trefnu gan fod hynny'n effeithio ar gomisiynu a chaffael. Roedd y ffordd mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu trefnu mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cael ei disgrifio'n wahanol drwy'r ymatebion. Awgrymodd rhai, wrth gyfeirio at achosion lle mae swyddogaethau caffael a chomisiynu ar wahân, nad oes gan yr arbenigwyr caffael o bosibl ddealltwriaeth drylwyr o ofal cymdeithasol, ac nad oes gan y comisiynwyr ychwaith ddigon o sgiliau i herio eu cydweithwyr caffael. Roedd eraill yn nodi bod

swyddogaethau comisiynu'n cael eu cynnwys mewn adrannau caffael corfforaethol ac felly mae'r ddealltwriaeth o'r farchnad wedi cael ei cholli gyda mwy a mwy o ffocws ar leihau costau. Nododd eraill mai'r un bobl o fewn yr adran yw'r swyddogion caffael a'r swyddogion comisiynu. Disgrifiwyd yr effaith yn yr un modd, gyda rhai'n teimlo bod y contractau gwasanaeth wedi'u cynllunio er hwylustod swyddogaethau swyddfa gefn y cyngor, yn hytrach na'r gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol.

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith bod yn aml amrywiadau o ran gallu comisiynu a chaffael ac o ran arferion a dulliau gweithio rhwng awdurdodau cyfagos a rhwng ieuchyd a gofal cymdeithasol, gyda llawer ohonynt yn dyblygu fframweithiau gyda mân wahaniaethau. Nododd un ymateb fod sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol yn 'siarad iaith wahanol' o ran comisiynu ar adegau. Ychwanegodd un arall fod cwestiynau ychydig yn wahanol yn aml yn cael eu gofyn mewn ymarferion tendro caffael, ac mae hynny'n arwain at awdurdodau lleol gwahanol yn gorfod treulio gormod o amser yn ailysgrifennu. At hynny, mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch gweithio yn unol â gwahanol systemau caffael gan fod hynny'n defnyddio llawer o adnoddau.

Nodwyd y gwahaniaethau o ran comisiynu ar lefel unigol ac ar lefel y boblogaeth yn yr ymatebion. Diffiniwyd lefel y boblogaeth mewn sawl ffordd. Roedd un ymateb yn disgrifio poblogaeth fel; clwstwr, ardal a rhanbarth, tra bod un arall yn disgrifio lefelau strategol a gweithredol. Nodwyd ar lefel poblogaeth bod angen i gomisiynu adlewyrchu'r model gofal seiliedig ar leoedd a ddatblygwyd ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol, ac i'r asesiadau o anghenion y boblogaeth barhau i ddiwallu anghenion y poblogaethau a aseswyd. Fodd bynnag, codwyd y ffaith bod yr asesiadau o anghenion y boblogaeth yn eu dyddiau cynnar, ac felly effaith eu gallu cyfyngedig i gael eu defnyddio i gefnogi cynllunio a chomisiynu. Daethpwyd i'r casgliad, fel ymateb, fod y cysyniad o lunio'r farchnad wedi'i golli, ac mae awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd lleol yn ceisio prynu'r hyn sydd yno. Prin yw'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r farchnad, ei chynaliadwyedd, neu i ddatblygu lleoliadau arbenigol yn lleol.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod dealltwriaeth wahanol o'r diffiniad o gomisiynu a chaffael. Roedd rhai yn cydnabod caffael o fewn y cylch comisiynu ac yn disgrifio caffael fel adnodd i gomisiynwyr tra bod eraill yn gweld y rhain fel gweithgareddau sy'n annibynnol ar ei gilydd. Roedd un ymateb yn galw am gytundeb cyffredinol o ddiffiniadau a mesurau ansawdd a gwerth ac yn argymhell dull tebyg i'r hyn a gynigir yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol – lle mae ystod o ddatganiadau ansawdd a mesurau canlyniadau cenedlaethol yn cael eu cydgynhyrchu i nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol penodol. Dywedodd un arall y bydd yn bwysig cael cyd-ddealltwriaeth o gomisiynu ar draws ffiniau sefydliadol yn enwedig os yw comisiynu integredig yn cael ei ystyried.


Darparodd yr ymatebwyr argymhellion pellach ar sut y gellid cydbwysu arferion caffael yn well o fewn y cylch comisiynu. Byddai cael dulliau, contractau ac arferion safonol yn ddefnyddiol, yn enwedig lle mae'r un gwasanaethau'n cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan wahanol gomisiynwyr ar wahanol seiliau a byddai'r fframwaith yn ychwanegu gwerth drwy gynnwys elfennau fel cyflog sylfaenol i weithwyr gofal cymdeithasol, a chanolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau ar lefel leol. Fodd

bynag, i fod yn effeithiol, argymhellwyd bod angen i gaffael fod yn hyblyg er mwyn cefnogi gofal effeithiol sy'n cefnogi'r unigolyn a darparu modelau mwy arloesol. Er mwyn gwella canlyniadau a safonau, mae angen fframwaith comisiynu sy'n darparu manyleb glir a chyson a chontractau clir a mesuradwy sy'n diffinio'r canlyniadau y gellir eu monitro gyda'r partneriaethau. Dylai hwyluso yn hytrach na llesteirio trawsnewid.

Roedd hefyd yn cael ei ystyried bod cyfle pwysig i gryfhau partneriaethau rhwng comisiynwyr, cymunedau a darparwyr i gyd-ddylunio atebion lleol llawn dychymyg er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i unigolion a sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Ni all comisiynwyr ar eu pen eu hunain sicrhau graddfa a chyflymder y newid sy'n ofynnol i ailgydbwyso'r ddarpariaeth o ofal a chymorth, ac mae gan gymunedau a darparwyr wybodaeth, adnoddau ac arbenigedd i'w cyfrannu at yr heriau cyffredin hyn. Dylai hyn gynnwys asesiad o anghenion, dadansoddiad o'r bylchau, gwerthusiad o'r opsiynau, cynlluniau ardal, ynghyd â chynllunio a gwerthuso gwasanaethau. Rhaid i welliannau fod yn seiliedig ar brofiadau gwell pobl o ofal gan nad yw'r system bresennol yn cynrychioli comisiynu yn erbyn safonau nac ansawdd ond contractio am bris fforddiadwy.

Cwestiwn 3- Ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 3 wedi'i nodi yn Ffigur 4.



Roedd dros hanner yr ymatebion yn teimlo bod dyluniad a strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfyngu arnynt. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn yn dod o'r trydydd sector a'r sector annibynnol ac yn ddinasyddion.

Roedd llai na chwarter yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r cwestiwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod y pwerau deddfwriaethol i gefnogi integreiddio a chyllidebau cyfun eisoes yn ddigonol i alluogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau presennol. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu'n sylweddol ers iddynt gael eu sefydlu'n wreiddiol a bod partneriaethau'n parhau i dyfu a datblygu dros amser, er ar gyfraddau gwahanol. Roedd llawer o'r ymatebion yn credu bod partneriaethau'n ymwneud ag ymddiriedaeth a pherthnasoedd, ac felly mae angen i bartneriaid weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r newid angenrheidiol, ac na fyddai newid strwythurau yn cyflawni hyn.

Nododd un ymateb fod gallu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau wedi'i gyfyngu'n fwy gan eu haeddfedrwydd a'u huchelgais na chan gyfyngiadau cynhenid yn eu strwythur a'u dyluniad. Fodd bynnag, dywedodd un o gynrychiolwyr dinasyddion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nad yw'r dull "calonnau a meddyliau" arfaethedig yn debygol o gael yr effaith a ddymunir. Mae rhai ymatebion gan y trydydd sector yn tynnu sylw at ddiffyg ymddiriedaeth ymddangosiadol rhwng partneriaid.

O safbwynt dinesydd, cydnabuwyd bod cynnwys aelod gofalwyr a dinasyddion ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn elfen bwysig, sy'n cryfhau'r llais lleol. Awgrymwyd bod angen cryfhau hyn er mwyn galluogi cydgynhyrchu yn well. Nododd un awdurdod lleol fod y ffordd y caiff llais dinasyddion a gofalwyr ei sicrhau yn amrywio ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a chroesawodd mynd ati i ddatblygu trefniadau llywodraethu mwy cydlynol. Roedd un ymateb gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn teimlo bod y Byrddau fel petaent wedi'u datgysylltu oddi wrth sicrhau canlyniadau i'r rhai sydd angen gofal a chymorth. Dywedodd sefydliad sy'n cynrychioli gofalwyr fod cynrychiolwyr gofalwyr yn teimlo bod eu rolau'n symbolaidd ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi. Ar y sail hon, cyfeiriwyd at enghreifftiau penodol o gyfyngiadau wrth gydgynghyrchu penderfyniadau gyda gofalwyr, gan gynnwys cyhoeddi papurau sylweddol heb fawr o rybudd yn aml a chyda chanlyniadau agendâu yn cael eu pennu ymlaen llaw a'u cymeradwyo. Galwodd rhai am baneli dinasyddion rhanbarthol wedi'u datblygu'n well, lle'r oedd dinasyddion yn cael eu talu am eu hamser. Roedd y bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn credu bod yn rhaid i unrhyw gynigion manwl ar gyfer creu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar sail gryfach sicrhau bod y Corff Llais y Dinesydd newydd yn cael ei arfogi'n briodol a'i alluogi i lywio a dylanwadu ar gynlluniau, blaenoriaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – yn yr un ffordd ag y mae'n cael ei sefydlu i'w wneud gyda chyrrff y GIG ac awdurdodau lleol.

Roedd y trydydd sector yn adrodd yn aml ei fod yn ei chael yn anodd ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oherwydd eu strwythur, sy'n amrywio ledled Cymru. Teimlai rhai cynrychiolwyr o'r trydydd sector fod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb unrhyw fewnbnw ystyrlon gan y trydydd sector. Dywedodd llawer ei bod yn werthfawr cael cynrychiolydd o'r trydydd sector yn y cyfarfodydd hyn, ond bod cael un cynrychiolydd yn awgrymu bod y sector yn cael ei ystyried yn un endid â'r un farn. O ganlyniad, nid yw llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn gallu rhannu eu harbenigedd ynghylch anghenion grwpiau agored i niwed, a allai helpu i ddylanwadu ar wasanaethau a'u gwella. Nododd rhai o ymatebion y trydydd sector nad oeddent yn gwybod pwy oedd cynrychiolydd y trydydd sector, na sut i gael gwybod. Roedd galwadau i sicrhau amrywiaeth yn y ffordd y caiff llais y sector ei gynrychioli. Awgrymwyd y dylai sicrhau presenoldeb sefydliad ymbarél / corff cyffredinol o'r trydydd sector alluogi mwy o gyfleoedd i sefydliadau'r trydydd sector gyfrannu at sgysiaau.

Teimlwyd hefyd bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhy fawr i wneud penderfyniadau effeithiol. Cyfeiriwyd at Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent fel enghraifft o fwrdd â hyd at 40 o aelodau, sy'n golygu ei bod yn eithriadol o anodd ymgysylltu a chynnal deialog effeithiol. Dywedodd rhai o'r ymatebion fod aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys aelodau Cyngor lleol a etholwyd yn ddemocrataidd, ac mae hyn yn sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau lleol yn cael eu clywed a bod atebolrwydd lleol wrth wraidd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ar y llaw arall, credai un arall fod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn erydu democratiaeth leol.

Teimlai rhai y gall fod gwrthdaro buddiannau o ran disgwyliadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, (ee o ran y gallu i rannu gwybodaeth sy'n fasnachol

sensitif), pan fydd dinasyddion, darparwyr a phartneriaid eraill wrth y bwrdd partneriaeth nad oes 'angen gwybod' yr wybodaeth o bosibl. Gallai hyn amlygu ei hun mewn persbectif lle bydd aelodau eraill o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn teimlo bod penderfyniad yn cael ei wneud y tu allan i'r bartneriaeth.

Disgrifiwyd y gofynion adrodd ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru fel rhywbeth biwrocraataidd ac sy'n feichus ar y bartneriaeth. Roedd rhai o'r farn bod y dull yn annog dull ymatebol 'sy'n cael ei arwain gan gyllid' o fuddsoddi ac sy'n llesteirio gallu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fuddsoddi mewn meysydd lle mae'r angen mwyaf am welliannau ar lefel leol. Yn yr un modd, roedd sefydliadau statudol yn teimlo bod dyraniadau cyllid tymor byr yn cyfyngu ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mewn rhai achosion yn cael eu cyhoeddi heb fawr o rybudd ymlaen llaw. Adroddodd Archwilio Cymru mai ychydig o dystiolaeth a welsant o brosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o ddarpariaeth gwasanaethau craidd cyrff cyhoeddus. Roeddent hefyd wedi canfod nad oes llawer o graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gyda gwelliannau'n angenrheidiol o ran ymwybyddiaeth sefydliadau o sut mae cyllid grant yn cael ei ddefnyddio.

Ar ben hynny, tynnwyd sylw at y ffaith bod gwrthio cyllid grant mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn heriol pan nad oes llawer o adnoddau staff, a bod llawer o dimau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru, drwy anghenraid. Nododd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol fod capasiti yn cael ei dynnu o sefydliadau iechyd a llywodraeth lleol mewn achosion eraill, ac mae hynny'n cyfyngu ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau eraill. Y gred oedd y gallai fod manteision i asiantaethau partner ac i'r bartneriaeth gyffredinol o ran cael capasiti rhanbarthol penodol ychwanegol i hybu gweithio mewn partneriaeth. Ychwanegodd un ymateb gan y trydydd sector y byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn elwa ar ddisgrifiad cliriach o'u pwrpas ynghyd â rolau penodol a disgrifiadau swydd cyson er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'n effeithiol.

Nodwyd bod pŵer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddylanwadu ar newid yn ei bartneriaid yn ffactor cyfyngol. Teimlwyd bod cystadleuaeth am gyllid ac adnoddau yn rhwystr sylweddol i weithio ar y cyd. Nododd llawer o'r ymatebion fod cyllidebau ar wahân a phŵer anghytwys yn llesteirio cynnydd. Roedd ymateb gan y trydydd sector yn credu bod gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymrwymiad cyfyngedig o hyd a'u bod yn cadw teyrngarwch tiriogaethol cryf i'w rhiant-gyrff. Roedd un awdurdod lleol yn credu bod gwrthdaro posibl gyda'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn cyfrannu at gostau gwasanaethau mewn ardal arall. Nododd awdurdod lleol, gyda phwysau cyllidebol yn her wirioneddol, y gall comisiynu cydweithredol ac arloesol gael ei gyfyngu gan bob sefydliad sydd am sicrhau bod ganddynt reolaeth dros adnoddau lleol. Mae llai o barodrwydd i ddefnyddio dull comisiynu o'r fath y tu allan i gyllid grant Llywodraeth Cymru a ddarperir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

O ran cyllid grant, cyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau lle nad oedd yr aelodau'n teimlo eu bod yn berchen ar y cyd ar fidiau am gyllid lle mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddal ar ran y bartneriaeth gan un o'r asiantaethau perthnasol, yn hytrach na chael ei ddal ar

y cyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nododd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol fod y gofyniad i ddal a rheoli'r dosbarthiad cyllid yn creu anghydwysedd grym rhwng partneriaid.

Roedd ymateb gan un dinesydd yn tynnu sylw at y ffaith y gallai partneriaid fod yn amharod i gyfrannu at gyllideb gyfun (maent yn ofni colli rheolaeth) hyd nes y gallant weld y manteision. Mae angen i bartneriaid ddeall beth maen nhw'n ei gyfrannu a beth maen nhw'n ei gael yn ôl, a beth yw'r manteision i bob un o'r rhanddeiliaid. Awgrymwyd y gellid meithrin ymddiriedaeth petai'r trefniadau llywodraethu priodol ar waith i fagu hyder drwy fod yn dryloyw. Fodd bynnag, dywedodd ymateb gan y trydydd sector fod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwbl aneglur. Roedd sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol yn credu bod cyfranogwyr yn ei chael yn anodd deall y llinell adrodd ac atebolrwydd ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn credu bod angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn gwbl atebol, yn destun craffu ac i bob cyfarfod fod yn agored i'r cyhoedd. Y gred oedd y byddai hyn yn sicrhau archwilio, herio a chraffu priodol. Credai un awdurdod lleol y gallai Cymru elwa ar drefniadau llywodraethu symlach. Petai cytundeb gwneud penderfyniadau dirprwyedig 'unwaith yn unig' ar waith, byddai hyn yn symleiddio pethau ac yn cynnig ffordd fwy deinamig o weithio.

Nododd llawer fod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg gweledigaeth y cytunir arni ymysg y partneriaid. Roedd llawer yn galw am egluro'r cyfrifoldebau mewn perthynas â Chymru Iachach a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a hynny o ran llesiant, canlyniadau, cydgynhyrchu, cydweithio ac atal. Roedd y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud fod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r model presennol, yn enwedig y diffyg eglurder ynghylch swyddogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi newid yn sylweddol ers iddynt gael eu sefydlu. Hefyd, gofynnwyd am eglurder ynghylch bwriad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; hynny yw, i fod yn fyrddau strategol neu'n fyrddau gweithredol. Galwodd un ymatebydd i bwrpas integreiddio o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr gael ei fynegi'n glir. Darparwyd enghreifftiau o'r gofynion gweithredol (ee rheoli ffrydiau cyllid grant) a'r gofynion strategol (ee asesiad o anghenion y boblogaeth) a roddwyd ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. I gefnogi hyn, nododd yr ymateb gan yr Arolygiaeth Gofal ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei wneud, a nododd sefydliad trydydd sector fod cylch gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhy eang. Roedd rhai'n cynnig barn ynghylch beth ddylai rôl a swyddogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod; catalydd ar gyfer rhannu arferion da/gorau; hyrwyddo'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn unol â Chymru Iachach ond o fewn egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014; nodi enghreifftiau a rhannu'r rhain a darparu her i wasanaethau nad ydynt yn trawsnewid.

Awgrymodd ymatebydd o'r trydydd sector nad yw'r adroddiadau cychwynnol ar asesiad o anghenion y boblogaeth yn brif flaenoriaethau i'r rhan fwyaf o'r cyrff cyfansoddol. Yn hytrach, maent yn fwy o ymarferion cydymffurfio na pheiriant ar gyfer newid a chyflawni. Ailddatganodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod ei swyddfa hithau hefyd wedi mynegi pryderon yn 2014 ynghylch cadernid ac amrywiaeth yr Asesiadau Poblogaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaethau eirioli yng Nghymru. Roedd nifer o ymatebion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn credu,

yng nghyd-destun eang y dyletswyddau a nodir o dan Ran 9 o'r Ddeddf ac amcanion Cymru Iachach, y dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol allu pennu eu blaenoriaethau eu hunain er mwyn mynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol a nodwyd. Ar ben hynny, dylid defnyddio'r cyllid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn unol â phenderfyniadau lleol a blaenoriaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd heb gael eu pennu ymlaen llaw yn genedlaethol.

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r Gogledd at ôl-troed mawr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel anfantais. Nododd un o awdurdodau lleol y Gogledd y gall fod yn anodd ar adegau gwneud penderfyniadau a chynnal trafodaethau ar lefel rhanbarthol o ystyried maint y rhanbarth. Cyfeiriwyd at enghraifft arall o hyn; mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi cael ei rannu'n 3 Grŵp Ardal Integredig llai yn ddiweddar er mwyn gweithredu'n fwy effeithiol. Teimlent, er gwaethaf darparu gwasanaeth rhanbarthol ar rai materion penodol iawn, fod profiad yn dangos y bydd canolbwyntio ar waith lleol sy'n cael ei yrru gan anghenion preswylwyr yn rhoi gwell canlyniadau i bobl.

Darparodd yr ymatebwyr argymhellion pellach ar sut y gellid cryfhau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn ymateb i'r cyfyngiadau drwy'r ymgynghoriad:

- Roedd ymatebion gan ofal sylfaenol yn galw am eglurder ynghylch sut mae unrhyw waith is-ranbarthol yn cyd-fynd â chymdogaethau a chlystyrau (gofal seiliedig ar leoedd). Byddai modd gwella strwythur a dyluniad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymhellach er mwyn integreiddio â strwythurau presennol eraill fel clystyrau gofal sylfaenol.
- Nododd un ymateb fod cael cadeirydd annibynnol yn welliant cadarnhaol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol oherwydd gall edrych yn ddiduedd ar draws y ffiniau rhwng sectorau a sefydliadau.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylid sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyfarwyddo'r ddarpariaeth o wasanaethau a dal gwasanaethau i gyfrif. Galwodd sefydliad arall yn y trydydd sector ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddal gwasanaethau statudol a darparwyr gofal eraill yn fwy atebol am ganlyniadau ac ansawdd y ddarpariaeth a fydd yn cael ei nodi yn y fframwaith cenedlaethol. Roedd awdurdod lleol yn credu y gallai deddfwriaeth wneud y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorff mwy pwerus a allai ddal y Byrddau Iechyd i gyfrif yn well.
- Gofynnwyd am eglurder ynghylch y berthynas strategol a gweithredol rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Teimlwyd y byddai integreiddio mwy â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn galluogi datblygiadau strategol mwy effeithiol.
- Mae angen cryfhau ac amrywio aelodaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; roedd enghreifftiau penodol o aelodaeth ychwanegol yn cynnwys cyfarwyddwyr nyrsio'r GIG, cyrff proffesiynol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, sefydliadau ambarél y trydydd sector, ac undebau.
- Roedd llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn galw am well tryloywder. Roeddent yn adrodd nad yw'r gwefannau'n hygyrch, ac mae'r wybodaeth ar sut i gysylltu â'r byrddau, a sut i ymgysylltu ar unrhyw lefel, yn gyfyngedig. Mae angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd fod yn atebol ac yn dryloyw yn y ffordd maent yn gwneud penderfyniadau, ac mae angen gwneud

mwy i sicrhau bod cyfarfodydd a'r broses gwneud penderfyniadau'n dryloyw ac yn cael eu craffu'n briodol. I gefnogi hyn, dywedodd y bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned fod yr wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am weithgareddau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfyngedig iawn ac ystyriwyd a ddylai'r cyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd. Y teimlad oedd petai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol am gael rôl gryfach yn y gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, yna mae angen cryfhau eu gwelededd a'u hatebolrwydd yn uniongyrchol i'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn sylweddol. O'r herwydd, ni fydd yn ddigonol creu trefniadau llywodraethu sy'n dangos atebolrwydd drwy eraill. Mae angen cael gofynion clir i sicrhau bod unrhyw fodel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cryfach sydd â phwerau i wneud penderfyniadau yn gweithredu'n agored ac yn dryloyw. Mae hyn yn cynnwys diwallu a rhoi cyfrif am ei gamau gweithredu a'i benderfyniadau yn gyhoeddus.


- Dylid deddfu ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol ym mhob bwrdd iechyd lleol am sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd ac yn llwyddo. Byddai'r ddyletswydd hon yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ar gyfer y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid ystyried hefyd sut y gellid dal yr holl bartneriaid ehangach yn gyfrifol, yn enwedig os bydd unrhyw fath o archwilio o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Datblygu mesurau gwerthuso a pherfformiad iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- Roedd sefydliad o'r trydydd sector o'r farn nad yw byrddau arweinyddiaeth mawr mor effeithiol â grwpiau gweithredol llai wrth wneud penderfyniadau. Byddai sefydlu grŵp gweithredol, sy'n cael ei gynghori gan is-grwpiau ar feysydd gwaith arbenigol, yn fwy effeithlon o ran cynhyrchu gwybodaeth allweddol a gwneud penderfyniadau. Roedd yr enghreifftiau penodol yn cynnwys is-grwpiau ar gyfer plant.
- Adroddodd un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei fod yn cael ei gyfyngu gan ei berthynas â Llywodraeth Cymru. Galwodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am newid ffocws o reoli perfformiad cynlluniau a phrosiectau bach, i geisio sicrwydd ynghylch cyflawni polisi cenedlaethol ar lefel ranbarthol. Ar ben hynny, roeddent yn credu y dylid dal y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn atebol am eu cynlluniau tymor canolig fel datganiadau o fwriad clir sydd wedi'u costio.
- Disgrifiodd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol nifer o bartneriaethau gwahanol ar waith yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyffredinol, ac argymhellodd y canlynol:
 - Dylai'r holl bartneriaid gyfrannu asedau at ddadansoddi anghenion y boblogaeth, asesu ystod a lefel y gwasanaethau presennol a dadansoddiad o'r bylchau;
 - Mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am y penderfyniad i 'wneud neu brynu' a gallant wedyn gaffael gwasanaethau;
 - Mae comisiynwyr a darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau;
 - Mae comisiynwyr, dinasyddion a gofalwyr yn cytuno ar y canlyniadau i'w cyflawni gan wasanaethau; ac

- Mae darparwyr, dinasyddion a gofalwyr yn cytuno ar sut i gyflawni'r canlyniadau.

Cwestiwn 4- Ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?

Cwestiwn 4a- Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 4 wedi'i nodi yn Ffigur 5.



Mae dros hanner yr ymatebion yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau (54%). Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cwestiwn hwn yn teimlo y byddai'r dull hwn yn gwneud y system gofal cymdeithasol yn fwy tryloyw. Yn anad dim roedd darparwyr (yn y sector annibynnol a'r trydydd sector) yn croesawu'r potensial i leihau cymhlethdod a chael gwared ar ddyblygu neu wastraff, yn enwedig pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol. Roedd llawer yn dadlau y dylid cynnwys pob rhan o'r cylch comisiynu mewn fframwaith i hybu cysondeb (dadansoddi, cynllunio gwneud/ sicrhau gwasanaethau ac adolygu), a gwella'r integreiddio rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ar ben

hynny, dylid defnyddio asesiad o anghenion y boblogaeth, datganiadau sefyllfa'r farchnad a chynlluniau ardal i lunio unrhyw fframwaith cenedlaethol (ar lefel yr unigolyn a'r boblogaeth).

Roedd llai na chwarter o'r ymatebion yn tueddu i anghytuno neu anghytuno â'r cwestiwn. Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am ragor o eglurder ynghylch beth fyddai'n cael ei gynnwys mewn fframwaith cenedlaethol a sut y gellid ei weithredu, cyn pennu'r manteision. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn yn credu y byddai fframwaith cenedlaethol yn anhyblyg, ar draul ymreolaeth leol (gan ei fod yn ffafriol i benderfyniadau gael eu gwneud mor agos at bobl â phosibl). Ar y llaw arall, teimlai eraill fod perygl i fframweithiau cenedlaethol ddod mor hyblyg i gyfrif am amrywiadau lleol neu ranbarthol fel y byddant yn rhoi'r gorau i ychwanegu gwerth.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gofyn am ddiffiniad o fframwaith cenedlaethol, gan gynnwys ar ba lefel y byddai'n ofynnol iddo gael ei ddefnyddio (lefel yr unigolyn neu boblogaeth), p'un ai a fyddai ar gyfer gwahanol gategorïau o ofal ac a fyddai'n cynnwys gwasanaethau wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio. Cyfeiriwyd at ddau wahanol ddehongliad o'r fframwaith:

1. Fframwaith cenedlaethol fel strwythur ategol strategol sy'n gosod safonau ac egwyddorion ar gyfer ymarfer drwy offer a thempledi a hyrwyddo cysondeb mewn arferion da, ond nid ar draul hyblygrwydd ac ymreolaeth leol ar gyfer gwneud penderfyniadau; a
2. Fframwaith caffael cenedlaethol o ddarparwyr y byddai disgwyl i awdurdodau lleol dynnu gwasanaethau i lawr ganddynt, megis y rhai sydd eisoes ar waith i blant ac iechyd meddwl.

Nodwyd y dylai unrhyw fframwaith cenedlaethol gyd-fynd â gwerthoedd y system gyfan a ddisgrifir yn 'Cymru Iachach', sy'n canolbwyntio ar gydlynw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor, gan ddisgrifio modelau gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lefel genedlaethol, sydd wedyn yn cael eu rhoi ar waith i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo fod llawer i'w ddysgu o'r ymdrechion presennol i safoni arferion comisiynu yn y sector gofal cymdeithasol ac y dylid cynnwys y canlynol mewn fframwaith cenedlaethol, gan adeiladu ar y dulliau presennol:

- Set gyffredin o ganlyniadau, egwyddorion a gwerthoedd i hwyluso'r newid diwylliant a nodir yn y Ddeddf;
- Safonau ansawdd ar gyfer gofal a chymorth (gan gynnwys nodi canlyniadau a hawliau pobl), gyda chysylltiad clir â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru 2017) ac archwiliadau o'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol;
- Dogfennau contractau templed, gan gynnwys manylebau gwasanaeth;
- Offer methodoleg ffioedd safonol i helpu i gyfrifo cost y gwahanol fathau o ofal;
- Adnoddau monitro a rheoli contractau templed;
- Prosesau monitro ac adrodd ar berfformiad, gan gynnwys nodi'n glir y data sydd ei angen i lywio comisiynu (fel mesurau canlyniadau);

- Adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hwyluso rhannu gwybodaeth a chefnogi perthnasoedd effeithiol rhwng gwahanol rannau o'r system;
- Cymorth mewn perthynas â methodolegau ar gyfer treialu a phrofi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau drwy bethau fel prototeipio a graddio gwasanaethau'n gyson;
- Un fframwaith dysgu a datblygu ar draws y timau cynllunio, comisiynu, caffael a rheoli contractau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig; a
- Chytundebau templed adran 33 ar gyfer gwaith integredig a chomisiynu arweiniol a chronfeydd cyfun (Adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006).

Mewn perthynas â dinasyddion, croesawyd mwy o bwyslais ar gomisiynu yn ôl ansawdd, canlyniadau, hawliau a llesiant. Roedd llawer o'r ymatebion yn tynnu sylw at fwy o bwyslais ar lais y dinesydd. Dywedodd llawer fod dysgu a myfyrio gan ddefnyddio profiad pobl o wasanaethau a gomisiynir yn hanfodol er mwyn sbarduno gwelliant parhaus yn y cylch comisiynu. Nododd un ymatebydd y dylai'r fframwaith cenedlaethol nodi ymgysylltu gweithredol â phobl drwy gydol y cylch comisiynu: ar y cam "dadansoddi" er mwyn canfod anghenion a dyheadau; ar y cam "cynllunio" er mwyn dylanwadu ar drawsnewid gwasanaethau; ar y cam "diogelu gwasanaethau" er mwyn gwella ansawdd a diogelwch; ac ar y cam "adolygu" er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a'r profiadau cywir yn cael eu monitro, bod arferion da'n cael eu nodi a bod gwersi'n cael eu dysgu. Ategwyd y farn hon gan nifer o ymatebion eraill, lle'r oedd un arall yn nodi bod angen i bob cynnig gael diffiniad cryf o gomisiynu cydgynhyrchiol wrth eu gwraidd. Dywedodd llawer fod yn rhaid adeiladu unrhyw fframwaith cenedlaethol ar ddealltwriaeth mai'r ffordd orau o gyflawni canlyniadau yw drwy bartneriaeth rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a'r bobl eu hunain. Yn ogystal â hynny, tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen am fodel comisiynu sy'n canolbwyntio mwy ar fodel seiliedig ar werth cymdeithasol sy'n sicrhau llesiant i bobl. Rhaid i brosesau caffael roi sgôr uwch i sefydliadau sy'n hyrwyddo cydweithredu, cydgynhyrchu a galluogi dulliau o ddarparu gwasanaethau ac annog sefydlogrwydd, cytbwysedd a chapasiti lleol.

Tynnwyd sylw at y gwahaniaethau rhwng gofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Er enghraifft, nodwyd nad yw plant a phobl ifanc yn gallu 'dewis' eu lleoliadau a bod angen i unrhyw newidiadau arfaethedig sicrhau y deallir bod amgylchiadau plant yn gwbl wahanol sy'n golygu bod angen iddynt gael eu triniaeth eu hunain. O fewn gwasanaethau plant, tynnwyd sylw at y ffaith bod digonolrwydd lleoliadau yn fater cymhleth a hirsefydlog a fydd yn rhwystr anodd ei goresgyn. Awgrymwyd bod y cynnydd a wnaed gan fframwaith Consortia Comisiynu Plant Cymru yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu fframwaith cenedlaethol ymhellach mewn perthynas â phlant, yn enwedig i ddatblygu proses gwerthuso ansawdd, i roi sicrwydd ynghylch ansawdd lleoliadau a chanlyniadau i blant. Awgrymodd un ymatebydd ei bod yn hanfodol bod y gwaith a wnaed hyd yma gan Consortia Comisiynu Plant Cymru ar dryloywder costau yn cael ei ddefnyddio i archwilio ymhellach yr amrywiadau mewn costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau pob plentyn. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi galw am symud oddi wrth wneud elw ym maes gwasanaethau gofal plant, a rhoi terfyn ar hynny yn y pen draw, a nododd fod angen cydnabod y gwahaniaeth sylweddol hwn mewn unrhyw drafodaethau ynghylch comisiynu a safoni ffioedd fel cyfrwng i hwyluso'r trawsnewid pwysig hwn ym maes

gofal plant. Credai'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru y byddai'r fframwaith cenedlaethol yn gyfle i edrych ar feithrin gallu sefydliadau dielw gwerth cymdeithasol ar gyfer lleoliadau maeth.

Roedd cryn ddiddordeb mewn methodolegau ffioedd, a chafwyd sylwadau manwl gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r hyn y gellid ei gynnwys yn y rhain. Credai'r sector annibynnol fod ymdrechion yn cael eu gwneud ac egni sylweddol yn cael ei ddefnyddio gan gomisiynwyr a darparwyr i ddatblygu strwythurau dyblyg ac ymarferion asesu ffioedd heb fawr ddim budd amlwg, os o gwbl. Roedd dysgu o fethodolegau ffioedd y DU ar gyfer gofal cartref a chartrefi gofal i bobl hŷn, gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a methodolegau costio Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol GIG Cymru hefyd yn cael eu nodi fel sail i adeiladu arni. Hefyd, argymhellwyd bod methodolegau'n delio â gwahaniaethau daearyddol a chyd-destunol. Er enghraifft, mae cost gofal cartref mewn ardaloedd gwledig yn uwch nag mewn ardaloedd trefol oherwydd y costau teithio cysylltiedig. Dyfynnwyd enghraifft arall sy'n ymateb i ofynion darparwyr o ran capasiti ac adnoddau ar wahanol gamau yn eu cylch busnes eu hunain. Yn fwy penodol, mae gan fusnesau o wahanol feintiau gostau gwahanol, nid oes gan fusnesau mwy o reidrwydd arbedion maint ac, yn yr un modd, nid oes gan fusnesau llai orbenion is bob amser.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn cysylltu cynaliadwyedd y gweithlu ag ansawdd y gwasanaethau ac yn gofyn i delerau ac amodau gael eu cytuno ar lefel genedlaethol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, a fyddai wedyn yn angenrheidiol gan gomisiynwyr mewn trefniadau comisiynu ee Cyflog Byw Gwirioneddol. Roedd eraill yn credu y gallai methodolegau ffioedd gynnig cyfleoedd ar gyfer gwell cydfargeinio ledled Cymru a symud tuag at delerau ac amodau cyffredin ar draws y darparwyr, gan sicrhau nad yw'r gwahaniaethau rhwng graddfeydd gweithwyr gofal yn cael eu herydu. Nodwyd bod gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi proffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol a'u Strategaeth Gweithlu ar y cyd gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn berthnasol wrth benderfynu ar fethodolegau ffioedd.

Galwodd un ymatebydd am ragor o eglurder ynghylch a yw dulliau pennu ffioedd wedi'u cynllunio i osod cyfraddau pwrpasol fesul darparwr neu gyfraddau safonol am bob math o wasanaeth neu gategori gofal. Darparodd yr ymatebwyr enghreifftiau penodol o faterion y dylid eu cynnwys mewn methodolegau ffioedd. Nododd sefydliadau darparwyr gostau sy'n gysylltiedig â chyflogau (gan gynnwys amser teithio, pensiynau, tâl salwch, cyfraniadau yswiriant gwladol ac ati) a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau (ee rheoli, costau swyddfa, costau cynnal a chadw adeiladau, costau cofrestru, systemau TG, hyfforddiant parhaus a gwella sgiliau staff). Ar y llaw arall, nododd ymatebion y sector cyhoeddus efallai nad y methodolegau sy'n tybio mai comisiynwyr sy'n gyfrifol am holl gostau cartrefi gofal sydd fwyaf priodol o ystyried y ffaith bod cyfran uchel o welyau'n cael eu hariannu gan dalwyr ffioedd preifat a bydd gweithredwyr masnachol yn aml yn codi tâl yn unol â'r hyn y bydd y farchnad yn ei oddef. Nodwyd hefyd nad yw'r cynnydd blyneddol mewn ffioedd yn aml wedi digwydd ar yr un gyfradd â'r cynnydd mewn costau, ac felly awgrymwyd bod modelau cynyddu chwyddiant blyneddol cenedlaethol yn cael eu cynnwys er mwyn cael gwared ar ddyblygu ymdrechion ar draws ardaloedd neu ranbarthau awdurdodau lleol.

Nododd nifer o ymatebwyr fod ymdrechion blaenorol i sicrhau mwy o gysondeb wedi arwain yn aml at wahaniaethau rhwng y rheini sy'n gweithio ar yr un sail – yn amlach na pheidio oherwydd canfyddiadau gwahanol o ran fforddiadwyedd. Felly, cyfeiriwyd droeon at bwysigrwydd sefyllfa'r gyllideb leol fel ffactor mewn unrhyw offer methodolegol gan awdurdodau lleol, yn ogystal â model cyllido cynaliadwy y cytunwyd arno. Roedd rhai ymatebion gan yr awdurdodau lleol yn credu y gallai modelau ffioedd cyffredin fod yn ddefnyddiol o ran darparu tryloywder a rhywfaint o gysondeb ar draws Cymru. Fodd bynnag, nodwyd bod yn rhaid i'r gallu i osod ffioedd yn lleol aros ar lefel leol, gan sicrhau cyfreithlondeb democrataidd ac adlewyrchiad priodol o amodau a chostau'r farchnad leol sy'n amrywio'n sylweddol hyd yn oed o fewn rhanbarthau.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd amgylchiadau lleol, yn ogystal â bod yn rhaid diogelu gallu parhaus sefydliadau i ddiffinio a sicrhau darpariaeth mewn ffordd sy'n cwrdd â'u blaenoriaethau eu hunain. Mewn ymatebion o'r fath, teimlwyd bod angen i fframwaith cenedlaethol hwyluso a chefnogi, yn hytrach na chyfyngu ar hyn. Awgrymwyd bod angen capasiti ar gyfer amrywiadau lleol/arbenigol, ac yn yr achosion hynny dylid cyflwyno rhesymeg glir dros unrhyw amrywiadau. Tra'n cydnabod y manteision posibl o ran ansawdd a chysondeb, nodwyd bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng fframweithiau cenedlaethol a safoni a hyblygrwydd a phenderfyniad lleol, er mwyn sicrhau gofal a chymorth ymatebol. At ei gilydd, roedd yr awdurdodau lleol yn teimlo petai fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddatblygu bod angen iddo fod yn ystwyth a gallu dilyn arferion arloesol sy'n digwydd ar lefel leol er mwyn bod yn effeithiol. Roedd sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol wedi atgyfnerthu'r angen i gydnabod bod cymunedau'n amrywiol ac yn meddu ar eu nodweddion, eu cryfderau a'u hasedau eu hunain. Felly, mae angen i fframwaith cenedlaethol a safoni a chyffredinrwydd rhanbarthol ystyried hyn a chael yr hyblygrwydd i ymateb i angen lleol a gweithredu dan arweiniad dinasyddion, er mwyn gwella iechyd a lles pobl.

Roedd rhywfaint o bryder y bydd darparwyr llai yn cael eu gwrthio allan o'r farchnad yn sgil datblygiad y fframwaith cenedlaethol. Roedd lleiafrif o'r ymatebion yn cyfeirio at y perygl y byddai dull cenedlaethol yn lleihau'r farchnad i gyflenwyr mawr a chenedlaethol sy'n gallu bodloni gofynion dull gweithredu Cymru gyfan, ac yn y pen draw yn arwain at gostau uwch a mwy o bellter rhwng gofal a'r gymuned. Er mwyn lliniaru'r peryglon hyn, awgrymwyd bod yn rhaid i'r fframwaith cenedlaethol gynnwys, hyrwyddo a blaenoriaethu mentrau cymdeithasol lleol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau'r trydydd sector a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, fel y nodir yn Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal â hynny, tynnodd un awdurdod lleol sylw at bwysigrwydd cynnal buddsoddiad mewn swyddogaethau comisiynu lleol fel y gellid cynnal cysylltiadau lleol cryf gyda darparwyr lleol.

Nodwyd nifer o argymhellion pellach. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn galw am gydgynhyrchu'r fframwaith rhwng gwasanaethau, pobl a'r Llywodraeth. Awgrymwyd y dylid bod rhywfaint o fyfyrion a dysgu ynghylch yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni mewn ymatebion i'r pandemig, a defnyddio dull gweithredu ar y cyd i gytuno ar safonau cyffredin a'r hyn a fyddai'n ddefnyddiol mewn fframwaith comisiynu, a sut y gallai hyn ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn bodoli.

Roedd canfod, casglu a defnyddio data i lywio comisiynu, gan gynnwys atebolrwydd yn ôl canlyniadau, ansawdd a pherfformiad yn llinyn cyffredin drwy nifer sylweddol o ymatebion gan bob sector. Yn gyntaf, roedd yr ymatebion yn galw ar y fframwaith cenedlaethol i ragnodi dull unedig o fonitro cydymffurfiaid contractau a gwerthuso gwasanaethau, gan gynnwys nodi'n glir y data adrodd sy'n ofynnol. Credid y byddai hyn yn cael gwared ar ddyblygu darparwyr sy'n aml yn anfon gwybodaeth sydd fymryn yn wahanol at gomisiynwyr gwahanol. Awgrymwyd hefyd bod hyn yn cael ei fynegi yn unol â thystiolaeth o gydymffurfio â deddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu perthnasol. Yn ail, roedd nifer yn argymhell bod gwybodaeth am y farchnad yng Nghymru gyfan yn cael ei chasglu drwy storfa ddata ganolog. Yn drydydd, bod yr offer rhagfynegi'r galw yn y boblogaeth yn cael ei ddatblygu'n genedlaethol. I gefnogi hyn, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen capasiti a sgiliau ychwanegol ar gomisiynwyr ar gyfer casglu, mewnbynnu, dilysu a dadansoddi data, gan droi hynny yn wybodaeth sy'n sail i benderfyniadau strategol (gan gynnwys dyrannu adnoddau) a chynllunio. Awgrymwyd datblygu fframwaith cymwysterau ar gyfer comisiynwyr i sicrhau dysgu parhaus ar gyfer timau caffael, gan gynnwys dealltwriaeth o sut i ddefnyddio a dehongli'r fframwaith cenedlaethol. Yn ogystal â hynny, nodwyd y dylai gwaith ar ddatblygu data gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru o amgylch strategaeth ddata ehangach ar gyfer gofal cymdeithasol.


Ar ben hynny, awgrymwyd y byddai creu fframwaith cenedlaethol, petai'n cynnwys gofynion penodol a chenedlaethol o ran darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn un ffordd o sicrhau bod o leiaf lefel sylfaenol o ddisgwyliadau ynghylch darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bodoli'n genedlaethol. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at wella ansawdd y gwasanaethau mae siaradwyr Cymraeg yn eu derbyn. Wrth gwrs, byddai angen i hyn gael ei ategu gan gaffael rhanbarthol a lleol sy'n adlewyrchu anghenion lleol a mwy penodol yr ardaloedd hynny gan gynnwys anghenion siaradwyr Cymraeg.

Cwestiwn 5- A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?

Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 5 wedi'i nodi yn Ffigur 6.



Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol (54%). Roedd llawer o'r ymatebion yn nodi bod manteision hyn yn cynnwys annog a hwyluso integreiddio a chydgomisiynu. Adroddodd nifer o'r ymatebwyr ei bod yn anodd ymateb i'r cwestiwn hwn heb fanylion pellach am bwrpas y fframwaith. Dywedodd rhai ymatebwyr nad yw pob gwasanaeth yn cael ei gomisiynu, a hefyd mae darpariaeth uniongyrchol o fewn yr awdurdod lleol a modelau amgen fel taliadau uniongyrchol. Felly, awgrymwyd efallai y dylai'r holl wasanaethau a

ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, gael eu cynnwys.

Roedd ychydig dros chwarter yn tueddu i anghytuno neu anghytuno â'r cwestiwn. Roedd awdurdodau lleol yn benodol yn teimlo bod angen rhywfaint o ryddid i barhau â dulliau lleol o ddiwallu'r angen asesedig. Disgrifiodd rhai'r angen i ddatblygu gwasanaethau pwrpasol mewn ymateb i angen lleol "oddi ar y fframwaith". Nododd ymateb arall na ddylai cynllun gofal a chymorth gael ei gyfyngu gan set o wasanaethau y cytunwyd arni ymlaen llaw. Roedd y rhai a ddisgrifiodd yr angen am drefniadau pwrpasol a gwasanaethau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw dan yr argraff y byddai fframwaith yn nodi rhestr o ddarparwyr gwasanaethau i gaffael ganddynt. Nododd un ymatebydd os bydd fframwaith cenedlaethol yn nodi egwyddorion a chanllawiau cyffredinol yna bydd yn fwy perthnasol i'r holl wasanaethau a gomisiynir, ond os bydd yn ceisio bod yn fanwl ac yn gyfarwyddol yna gall fod yn fwy cyfyngol.

O safbwynt dinesydd, roedd y Trydydd Sector yn benodol wedi tynnu sylw at y ffaith y dylai pob gwasanaeth fod yn seiliedig ar drafodaeth gychwynnol gyda'r unigolyn ynghylch 'yr hyn sy'n bwysig i unigolyn'. Hwn ddylai bob amser fod y man cychwyn a'r cnewyllyn i seilio gwasanaeth arno ar gyfer pob unigolyn. Efallai mai fframwaith cenedlaethol fydd y cam nesaf wedyn ar ôl hynny, gan sicrhau ei fod yn ddigon cadarn i fod yn ddefnyddiol ac yn hyblyg er mwyn gallu addasu i anghenion unigol unigryw pob person sy'n defnyddio gwasanaeth, ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r anghenion a fynegir ar y cyd mewn cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cefnogi ar gyfer gofalwyr.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid seilio cwmpas y fframwaith ar set gul o wasanaethau gofal a chymorth yn y lle cyntaf, ac y dylid wedyn ehangu'r rhain dros amser. Awgrymwyd y gallai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio fod yn fan cychwyn. Mewn perthynas ag oedolion, cyfeiriwyd at ofal cartref, gofal preswyl a gofal nyrsio. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid cynnwys pob gwasanaeth cymunedol sy'n cael ei reoleiddio gan yr Arolygiaeth Gofal, o leiaf, waeth pa wasanaeth sy'n cyfrannu arian at y gofal hwnnw. Yn fwy penodol, pan fydd cyfraniadau at gynllun gofal a chymorth yn cael eu gwneud gan ieuchyd, dylai'r gwasanaethau hyn hefyd fod yn unol â'r fframwaith

O ran gwasanaethau ieuchyd, roedd yr ymatebion yn cwestiynu i ba raddau y mae gwasanaethau ieuchyd yn ymddangos mewn cynlluniau gofal a chymorth, fel gwasanaethau ailalluogi, cymorth ieuchyd meddwl (gan gynnwys gwasanaethau therapiwtig i blant) a gwasanaethau ieuchyd corfforol (gan gynnwys ffisiotherapi), a ddylai hefyd gydymffurfio â fframwaith. O ystyried y gofyniad i ddadansoddi anghenion y boblogaeth ranbarthol, ac ymgymryd ag asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal. Gofynnodd lleiafrif o'r ymatebwyr a ddylai fframwaith gynnwys yr holl wasanaethau ieuchyd sylfaenol, ieuchyd cymunedol, gofal cymdeithasol ac ieuchyd y cyhoedd.

Yn fwy cyffredinol, cyfeiriwyd at enghreifftiau o wasanaethau yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y fframwaith, gan gynnwys byw â chymorth, gwasanaethau eirioli, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddulliau cymunedol seiliedig ar asedau, oedolion ag anableddau dysgu neu awtistiaeth y mae eu hymddygiad yn arwain at eu lleoli mewn unedau ac ysbytai "asesu a thrin", fel arfer y

tu allan i'r ardal neu'r wlad a gwasanaethau dydd, a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Nodwyd bod yn rhaid cynnwys yr elfen ychwanegol o gysylltiad ag addysg i blant a phobl ifanc gan fod addysg yn elfen greiddiol o gyfleoedd a chanlyniadau plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno y dylai Gofal Nyrsio a Ariennir (FNC) gan y GIG gael ei gynnwys, a nodwyd rhyngddibyniaethau'r FNC a Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn teimlo y dylid cynnwys Gofal Iechyd Parhaus o fewn fframwaith cenedlaethol, yn enwedig gan fod y gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu o gartrefi nyrsio gyda phreswylwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus ac yn aml yn newid rhwng FNC a Gofal Iechyd Parhaus. Adroddwyd ei bod yn ymddangos bod Gofal Iechyd Parhaus yn achosi tensiwn mewn penderfyniadau cyllido a chomisiynu oherwydd gall benderfynu p'un ai'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r GIG sy'n talu am ofal yr unigolyn. Defnyddir llawer iawn o adnoddau sefydliadau yn pennu'r llinellau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol; gall hyn fod ar draul yr unigolyn nad yw wedyn yn ganolog i'r penderfyniadau, a gall fod oedi i'w ofal a'i gymorth. Adroddodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod hyd at draean o'i amser yn cael ei dreulio'n cynnal ail asesiadau i wahaniaethu rhwng anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd ymateb gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi bod gofal iechyd sydd am ddim yn y pwynt mynediad wedi arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau am gyllid gan Ofal Iechyd Parhaus. Yn absenoldeb cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol cwbl integredig, credai rhai y gallai cadw gofal iechyd parhaus ar wahân olygu bod y tensiynau presennol yn parhau a thanseilio ymdrechion i weithio'n agosach mewn partneriaeth. Roedd un ymatebydd wedi myfyrio ynghylch yr amser sylweddol a'r fiwrocratiaeth ddiangen sy'n achosi rhaniad enfawr rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o ran eu cyllidebau. Awgrymodd un ymatebydd fod polisi cyfredol Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer oedolion yn cael ei ddisodli gan bolisi sy'n gwella gofal nyrsio am ddim (polisi FNC gwell) ac yn gofyn am gyfraniad (yn seiliedig ar asesiad ariannol) am lety gan eu bod yn credu na ddylai unrhyw un gael llety am ddim. Dywedodd y byddai hyn yn gwneud y system yn fwy teg ac yn lleihau gwastraff yn sylweddol o ran amser ac adnoddau. Nododd yr ymatebydd y byddai rhai'n dadlau y gallai hyn arwain at daliadau am lety mewn ysbyty, ond nododd mai diben ysbytai yw darparu triniaeth ac nid llety. Yn aml bydd pobl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio angen ymyriad nyrsio p'un a ydynt yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus ai peidio.

Tynnwyd sylw at drefniadau gofal parhaus plant a phobl ifanc fel un o'r enghreifftiau amlycaf o ble byddai cyfuno cyllid yn llwyddiannus rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a'u teuluoedd. Awgrymwyd y gallai cynnwys gofal iechyd parhaus a'r gofal i blant a phobl ifanc yn yr un fframwaith hwyluso heriau o ran pontio o ofal parhaus plant i ofal parhaus oedolion.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y gallai fframwaith weithredu y tu hwnt i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Os yw'r fframwaith cenedlaethol wedi'i gynllunio i fabwysiadu dull gweithredu ar draws y system, disgwylir y bydd atal, tegwch mynediad, lleihau anghydraddoldebau iechyd ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaethau allweddol. Soniwyd am bwysigrwydd gwasanaethau tai i bobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofal ychwanegol a thai â chymorth. Ar y llaw arall, holodd un awdurdod lleol a ellid sicrhau aliniad gyda'r

gwasanaethau tai yn well mewn ffyrdd eraill. Nododd rhai nad yw'n glir sut y bydd datblygu gwasanaethau dydd, gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar, a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynir yn cyd-fynd ag unrhyw fframwaith cenedlaethol a sut y gellir dal partneriaid yn atebol am ddyletswyddau ataliol.


Nodwyd argymhellion pellach. Teimlai'r ymatebwyr y bydd yn bwysig mynd i'r afael â'r materion sy'n bodoli o ran cyllido gofal a chymorth ar y cyd ac ar lefel deirochrog. Yn benodol mewn perthynas â darpariaeth y GIG, galwodd nifer o ymatebwyr am ddatblygu dull taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus/ gofal sy'n cael ei ariannu gan iechyd, er mwyn cynyddu llais, dewis a rheolaeth pobl. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr hefyd yn cydnabod y byddai cynnwys taliadau uniongyrchol mewn fframwaith cenedlaethol yn heriol.

Yn olaf, tynnwyd sylw at gysylltiadau â'r fframweithiau presennol, er enghraifft iechyd meddwl ac anabledau dysgu oedolion a Chonsortium Comisiynu Plant Cymru. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid uno'r fframweithiau hyn yn fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth. Cyfeiriwyd hefyd at weithgareddau comisiynu drwy'r fframwaith maethu cenedlaethol a'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol fel enghreifftiau o weithgareddau sy'n haeddu ystyriaeth ar gyfer fframwaith. Yn gyffredinol, awgrymwyd bod angen mapio gwasanaethau ymhellach cyn sicrhau bod gan fframwaith cenedlaethol y cwmpas cywir.

Cwestiwn 6- Ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?

Cwestiwn 6a- Os felly, pa rai?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 6 wedi'i nodi yn Ffigur 7.



Roedd dros draen o'r ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol (45%). Yn enwedig mewn achosion lle mae cyfuno'n arwain at lai o ddyblygu a mwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Awgrymwyd hefyd y byddai cyfuno'n cefnogi'r broses o ddefnyddio adnoddau cyfun yn well. Nododd ymateb un awdurdod lleol y gallai cyfuno fod yn ddefnyddiol os yw hyn yn arwain at gyfeiriad polisi clir ac adnoddau gwirioneddol a chefnogaeth i gomisiynwyr roi amcanion polisi ar waith. Ychwanegodd un bwrdd iechyd y byddai cyfuno cyrff, grwpiau a swyddogaethau sy'n bodoli'n barod yn sicrhau mwy o gysondeb ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth ac agweddau ar ofal cymdeithasol.

Adroddodd nifer o'r ymatebwyr ei bod yn anodd ymateb i'r cwestiwn hwn heb fanylion pellach ynghylch pa grwpiau cenedlaethol presennol sy'n cael eu hystyried.

Yn ogystal â hynny, roedd llai na chwarter yn tueddu i anghytuno neu anghytuno â'r cwestiwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu bod y manteision a fyddai'n deillio o gyfuno grwpiau cenedlaethol presennol drwy greu swyddfa genedlaethol yn aneglur ac roeddent yn rhybuddio ynghylch ychwanegu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth i'r sector. Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch lleihau arbenigedd drwy gyfuno rhai o'r cylchoedd gwaith.

Ystyriwyd cylch gwaith swyddfa genedlaethol, ac yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn gofyn am fwy o fanylion ynglŷn â phwmpas y swyddfa genedlaethol. Roedd lleiafrif o'r ymatebion yn galw am wasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus a'i ddarparu'n gyhoeddus, ac roeddent yn credu y byddai sefydlu swyddfa genedlaethol yn gam tuag at gyflawni'r weledigaeth gyffredinol hon. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn glir bod yn rhaid ychwanegu gwerth at greu'r swyddfa ac na ddylai ychwanegu mwy o gymhlethdod at system sydd eisoes yn gymhleth. Roedd rhai o'r farn y dylai swyddfa genedlaethol fod yn gorff cydlynus sy'n datblygu ac yn goruchwyllo'r broses o roi fframwaith ar waith, ac yn fwy penodol ei bod yn goruchwyllo, yn craffu ac yn dwyn i gyfrif am gaffael, darparu, sicrhau ansawdd a chanlyniadau i unigolion a gofalwyr. Cyfeiriwyd nifer fawr o weithiau at bwysigrwydd corff cenedlaethol sy'n sicrhau cyfleoedd i fyfrio, dysgu a chynffwrdd arferion gorau. Argymhellodd yr ymatebwyr fod y swyddfa genedlaethol yn atebol am hybu gwelliannau mewn gofal. I gefnogi hyn, credai rhai y dylai swyddfa ddal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn atebol.

Roedd eraill yn cwestiynu a fyddai'r swyddfa'n darparu cymorth gweinyddol/ysgrifenyddol i gyrff presennol lle na fyddai'r rhain wedi'u cyfuno. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y gallai swyddfa genedlaethol gryfhau arweinyddiaeth genedlaethol i'r sector. Roedd un ymatebydd iechyd yn credu y dylid sefydlu corff cynghori ar gyfer y swyddfa, gyda'r aelodaeth wedi'i nodi mewn deddfwriaeth.

Roedd nifer fach o'r ymatebion yn credu y gallai'r swyddfa genedlaethol ddod â'r holl gyrff cenedlaethol sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol at ei gilydd, gan gynnwys recriwtio, datblygu'r gweithlu, ansawdd, gwella, safonau rheoleiddio, mesur effaith, ac iechyd y cyhoedd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gofyn am eglurder ynghylch perthynas y swyddfa genedlaethol gyda chyrff cenedlaethol eraill; y rhai a nodwyd yn yr ymatebion oedd Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Corff Llais y Dinesydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru (Adran a strwythur arweinyddiaeth drwy'r bwrdd partneriaeth cenedlaethol), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Data Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru. Gofynnodd eraill am ragor o fanylion am y berthynas gyda grwpiau comisiynu presennol fel y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Consortïwm Comisiynu Plant Cymru, Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, Fframwaith Maethu Cenedlaethol, Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol GIG Cymru, a fforymau darparwyr a thrydydd sector perthnasol, fel CGGC, Fforwm Gofal Cymru a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan lywodraeth leol yn cefnogi unrhyw newid strwythurol na chreu cyrff ychwanegol ac roeddent yn galw am ffurfioli'r strwythurau presennol neu sefydlu swyddfa genedlaethol yn y llywodraeth yn hytrach na thrwy gorff ar wahân. Ar ben hynny, roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn credu y byddai

creu corff newydd y tu allan i'r Llywodraeth yn creu dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau gyda sefydliadau eraill (fel Gofal Cymdeithasol Cymru). Nododd Gofal Cymdeithasol Cymru a CLILC petai Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen ac yn sefydlu swyddfa genedlaethol y gallai o bosibl fod yng ngofal CLILC.

Roedd eraill yn awgrymu bod angen i swyddfa genedlaethol fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, er mwyn dal partneriaid statudol i gyfrif a meithrin cysylltiadau â'r farchnad. Roedd sefydliad sy'n cynrychioli darparwyr yn credu y byddai angen mwy o bwerau gweithredol ac atebolrwydd i gomisiynwyr er mwyn sicrhau gwell canlyniadau wrth hyrwyddo newidiadau mewn ymarfer, fel sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith cenedlaethol. Dywedodd un ymateb iechyd ei fod yn credu'n gryf na ddylid gosod swyddfa genedlaethol dros y trefniadau presennol, gan nodi'r lluo o grwpiau sydd â rhywfaint o ddiddordeb yn y maes hwn ac felly gallai fod yn amser da i atgyfnerthu a chael yr aliniad yn iawn.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn cwestiynu perthynas swyddfa genedlaethol â Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd rhai o'r farn y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru gael ei gyfuno'n swyddfa genedlaethol, tra bo eraill yn teimlo nad oedd angen swyddfa genedlaethol yn ychwanegol at y swyddogaethau a nodwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd eraill yn credu, petaent ar wahân yn y dyfodol, y dylid cysylltu'r data, yr ymchwil, y gwelliannau, a hyfforddiant ac arferion y gweithlu. Yn ogystal â hynny, nodwyd y byddai angen i'r swyddfa weithio'n agos gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ADSS Cymru, ynghyd â chyrrff llywodraeth leol, iechyd a'r trydydd sector perthnasol i sicrhau persbectif system gyfan. Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai angen i'r swyddfa genedlaethol gael cytundeb gydag Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru.

Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch rôl y swyddfa genedlaethol o ran goruchwyllo sefydlogrwydd y farchnad. Nodwyd bod gan AGC, AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol gyfrifoldebau, i raddau amrywiol, o ran sefydlogrwydd y farchnad a chynllunio'r gweithlu (mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, comisiynu lleoedd hyfforddi, a llwybrau gyrfa ac ati). Roedd ymatebion awdurdodau lleol yn tynnu sylw at y ddealltwriaeth gref o bwysau'r farchnad, materion sicrwydd ansawdd a chynaliadwyedd ar lefel leol. Roedd yr ymatebwyr yn glir bod angen i'r rôl hon gysylltu'n glir â gwaith gwella Gofal Cymdeithasol Cymru, Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a rôl yr arolygiaethau iechyd a gofal.

Cyfeiriwyd at y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, dan ofal CLILC, fel grŵp cenedlaethol a ddylai gael ei ystyried wrth sefydlu'r swyddfa genedlaethol. Nod yr NCB yw amlygu manteision cydweithio cenedlaethol, gan gryfhau'r berthynas rhwng darparwyr gwasanaethau, comisiynwyr a rheoleiddwyr o ran manteision pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnig llais awdurdodol. Roedd yr ymatebion gan ddarparwyr annibynnol yn teimlo nad oes gan yr NCB, fel mae wedi'i gyfansoddi ar hyn o bryd, y grym i orfodi'r polisi, sy'n arwain at grŵp sy'n hyrwyddo arfer gorau i raddau helaeth. Dywedodd nifer o'r ymatebion y byddai'n hanfodol i unrhyw waith 'cyfuno' ddal gafael ar yr ymgysylltiad lefel uchel sydd wedi bod yn bresennol yn y bwrdd fel y mae ar hyn o bryd yn ogystal â'r lefelau da o gyfranogiad ac arweinyddiaeth traws-sector. Roedd aelodau'r Bwrdd wedi mynegi amrywiaeth o safbwyntiau mewn perthynas â'r canlynol:

- Pwysigrwydd annibyniaeth yr NCB cyfun o'i aelod-sefydliadau.
- Y risgiau posibl o golli annibyniaeth, pe bai'r swyddfa genedlaethol yn swyddogaeth o fewn y llywodraeth genedlaethol.
- Manteision posibl i swyddfa genedlaethol, sy'n cynnwys lleoli'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol mewn sefydliad atebol fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Manteision posibl cryfhau'r cysylltiadau â rheoleiddwyr (AGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru) a rhannu amcanion ynghylch sefydlogrwydd y farchnad, datblygu adnoddau data.
- Ni ddylai'r NCB eistedd y tu allan i swyddogaeth swyddfa genedlaethol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'n fuddiol dod â Chonsortïwm Comisiynu Plant Cymru sydd dan arweiniad Llywodraeth Leol at ei gilydd i sicrhau polisi cenedlaethol ar gyfer pob oed ac uned gomisiynu weithredol ar gyfer plant. Fodd bynnag, nododd yr ymatebion bryder gwirioneddol hefyd y gallai comisiynu ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd gael ei golli mewn swyddogaeth genedlaethol fwy ar gyfer pob oed. Mae Consortïwm Comisiynu Plant Cymru yn chwarae rôl mewn comisiynu strategol, datblygu polisïau, rhannu arferion da a hyfforddiant. Gall fod yn anodd cyfuno ehangder gweithgarwch o'r fath. Felly, awgrymwyd y dylid cadw'r ffocws penodol ar anghenion plant drwy'r Consortïwm Comisiynu Plant Cymru mewn unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Roedd rhai o'r ymatebion yn disgrifio ehangder gwaith Consortïwm Comisiynu Plant Cymru ac yn teimlo ei bod yn anodd gweld sut y gellid cyfuno ehangder y gwaith hwn mewn swyddfa genedlaethol. Yn ogystal â hynny, gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru a'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn gweithredu o fewn, neu ochr yn ochr â threfniadau yn y dyfodol.


Tynnodd nifer fawr o ymatebion sylw at Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol y GIG, a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a'r System Comisiynu Sicrwydd Gofal a Pherfformiad gyfatebol. Roedd yr ymatebion o'r farn y dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu gael eu hystyried fel rhan o'r fframwaith a'r swyddfa genedlaethol.

Darparwyd rhagor o argymhellion ar gyfer sefydlu swyddfa genedlaethol. Mewn perthynas â'r Gymraeg, nodwyd os sefydlir swyddfa genedlaethol ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, y bydd yn rhaid sicrhau o'r cychwyn cyntaf ei bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sicrhau bod gwella gwasanaethau cyfrwng Gymraeg yn gyfrifoldeb craidd y swyddfa genedlaethol. O safbwynt dinasyddion, dywedodd y sefydliad sy'n cynrychioli'r trydydd sector fod yn rhaid i gynigion fod yn glir ynghylch cyfraniad at gyflawni yn erbyn egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn enwedig mewn perthynas â chyfle cyfartal a sicrhau bod gan bobl reolaeth dros eu bywydau.

Cwestiwn 7- Ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?

Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 7 wedi'i nodi yn Ffigur 8.



Roedd dros draean o'r ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn yn dod o'r trydydd sector a'r sector annibynnol ac yn ddinasyddion. Roedd un o'r dinasyddion a ymatebodd yn credu bod angen mynd ati i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol er mwyn sicrhau nad yw'r gystadleuaeth rhwng blaenoriaethau awdurdodau lleol a blaenoriaethau byrddau iechyd lleol yn tanseilio'r gallu i gyflawni blaenoriaethau strategol rhanbarthol clir. Fodd bynnag, yn aml nid oedd yr ymatebwyr yn credu mai cryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel hyn yw'r unig gam gweithredu sydd angen, a chyfeiriodd nifer o ymatebwyr at heriau wrth gyflwyno swyddogaethau presennol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn effeithiol (mewn perthynas â thryloywder, atebolrwydd, cydgynhyrchu a mesur canlyniadau ac effaith). Felly, roedd galwadau am adolygiad ffurfiol o'u strwythur, eu haelodaeth a sut maent yn cael eu ffurfio ar hyn o bryd fel rhan o unrhyw ddiwygio yn y dyfodol.

Roedd tua traean yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r cwestiwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i fod yn sefydliadau statudol a oedd yn credu bod y

darpariaethau deddfwriaethol presennol yn ddigonol i raddau helaeth i alluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu swyddogaethau. Roedd llawer o'r ymatebion yn teimlo y byddai sefydlu endid cyfreithiol arall yn creu cymhlethdod a biwrocratiaeth ddiangen, yn enwedig i gomisiynwyr. Galwodd rhai am ragor o dystiolaeth ynghylch sut y byddai'r newidiadau arfaethedig yn ychwanegu capasiti ar gyfer gwella. Aeth eraill ati i dynnu sylw at y gwelliannau parhaus a wnaed gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a nodi enghreifftiau o integreiddio llwyddiannus, gan alw am gryfhau'r trefniadau presennol (fel pwrpas, llywodraethu ac atebolrwydd), yn hytrach na gwneud unrhyw newid strwythurol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn galw am fwy o eglurder ynghylch y cynigion ac yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnynt i ateb cwestiwn yr ymgynghoriad. Dyma rai o gwestiynau'r ymatebwyr:

- I bwy fyddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd?
- I bwy fyddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn atebol? Sut byddai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn sicrhau bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn atebol am unrhyw gyfrifoldebau a ddirprwywyd?
- Pa ddull fydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa wasanaethau fydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu dirprwyo i'w comisiynu?
- Sut byddai cwynion yn cael eu trin?
- A fyddai unrhyw newid i statws aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er enghraifft, a fyddai aelodau'r bwrdd yn ddarostyngedig i lefel ychwanegol o atebolrwydd? A fyddai unigolion di-dâl yn cael taliad cydnabyddiaeth?
- A fyddai gan aelodau'r bwrdd fecanweithiau pleidleisio, gan gynnwys sicrhau hawliau pleidleisio cyfartal i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol o ran pŵer?
- A fyddai'r cynigion yn cefnogi penderfyniadau mwy tryloyw?
- A fyddai'r cynigion yn helpu i gryfhau cydgynhyrchu ystyrlon â dinasyddion? A fydd cyfraniad y trydydd sector yn cael ei ystyried yn ddigonol?

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pwysu a mesur pwrpas presennol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd un corff sy'n cynrychioli'r sector annibynnol yn credu bod gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ran bwysig o ran dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i gydlynu camau gweithredu a phenderfyniadau. Fodd bynnag, roedd nifer hefyd yn credu mai casgliad o ddarnau oeddynt yn hytrach nag arweinyddiaeth ranbarthol, ac y gellid gwella hyn drwy greu endid cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff ac yn dal cyllidebau. Gofynnodd y cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol i Weinidogion nodi'n glir yn y deddfwriaeth beth yw diben y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan fod y model presennol wedi caniatáu rhywfaint o ehangu cenhadaeth, gyda'r Gweinidogion yn defnyddio'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel cyfrwng i gyflawni amcanion y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Nododd Arolygiaeth Iechyd Cymru eu bod wedi ymgymryd â nifer o ddarnau o waith yn archwilio darpariaeth gwasanaethau integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaethant adrodd drwy'r gwaith hwn fod gwahaniaethau'n aml o ran strwythurau, y trefniadau goruchwylio a threfniant gwasanaethau, a arweiniodd yn ei dro at deimlo'r rhwystrau i ddarparu gwasanaeth da 'ar lawr gwlad'.

Soniodd nifer o ymatebwyr am ailddatgan ac adnewyddu rôl a phwrpas y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Credwyd y byddai hyn ynddo'i hun yn ysgogi integreiddio cryfach. Roedd llawer yn galw am gael cyd-ddealltwriaeth o ystyr integreiddio, a gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau integredig a chydberchnogaeth ar egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd. Roedd rhai'n galw am gydnabyddiaeth bod integreiddio a chyd-gomisiynu'n digwydd ar sawl lefel wahanol, mewn clystyrau, ardaloedd, awdurdodau lleol, is-ranbarthau, rhanbarthau ac yn genedlaethol. Roedd ymateb iechyd yn galw am eglurder ar lefel genedlaethol ynghylch sut y gellir cydbwysu hyn â dulliau gweithredu rhanbarthol mewn ffordd sy'n gwella canlyniadau i bobl, gan gydnabod y gwahaniaeth rhwng dulliau gweithredu mewn gwahanol rannau o Gymru.

Nid oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol yn credu ei bod yn glir sut y bydd y ffocws ar y 'cenedlaethol' a'r 'rhanbarthol' yn cysylltu â chymunedau lleol, ac yn eu cefnogi, ac yn darparu trefniadau integredig yn y gymuned yn lleol. Cyfeiriwyd sawl tro at glystyrau (sydd hefyd yn cael eu galw'n glystyrau gofal sylfaenol); er y nodwyd bod aeddfedrwyd y rhain yn amrywio ar draws Cymru, roedd y sector statudol yn gweld y rhain fel yr arena ar gyfer partneriaeth rhwng yr holl bartneriaid ar lefel leol, gan weithio mewn ymateb i anghenion lleol. O ran dadansoddi a chynllunio ar gyfer anghenion, awgrymwyd bod angen gwell aliniad rhwng dadansoddi anghenion ar lefel ranbarthol (drwy asesiadau o anghenion y boblogaeth) a lefel clwstwr neu leol. Argymhellwyd hefyd bod cynlluniau ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ymateb i gynlluniau lefel clwstwr ac yn alinio â nhw. Credwyd y byddai hyn yn gwella cysylltedd a ffocws lleol yn sylweddol. Roedd sefydliad sy'n cynrychioli'r GIG yn credu bod perygl y gallai cynigion i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol olygu symud oddi wrth glystyrau a modelau gofal sy'n seiliedig ar ardaloedd, ac integreiddio â gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau therapi/ ailalluogi cymunedol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion gan awdurdodau lleol yn cwestiynu perthynas Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol â strwythurau democrataidd. Nododd ymateb gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod angen cydbwysu manteision posibl rhagor o waith rhanbarthol yn erbyn pwysigrwydd atebolrwydd lleol yn ystod sgysiau o'r fath, gan groesawu'r sicrwydd a roddwyd gan y cyn Ddirprwy Weinidog o ymrwymiad parhaus clir i atebolrwydd democrataidd lleol yn y dirwedd ranbarthol. Gofynnodd un awdurdod lleol sut y byddai creu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol yn rhyngweithio'n effeithiol ac yn effeithlon â threfniadau llywodraethu llywodraeth leol ar draws ôl-troed rhanbarthol. Gofynnodd awdurdod lleol arall am eglurder ynghylch fframwaith llywodraethu gwell a phriodol sy'n caniatáu i aelodau etholedig barhau i graffu cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.

Nododd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol bod cyrff statudol yn cadw eu sofraniaeth oni bai eu bod gallu ac yn dewis dirprwyo swyddogaethau comisiynu i endid o'r fath, felly mae perygl y bydd cael Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth. Nid oedd un corff sy'n cynrychioli'r sector annibynnol yn credu y bydd sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol o reidrwydd yn newid y ffaith y gallai fod gan eu haelodau eu gwahanol fuddiannau a'u rhwymedigaethau cyfreithiol, eu hatebolrwydd am arian cyhoeddus, eu prosesau gwneud penderfyniadau a'u anghenion a nodau strategol unigol eu

hunain. Os yw'r aelodau cyfansoddol yn dal yn bennaf gyfrifol am gomisiynu gofal a chyllidebau cyfatebol, yna mae'n ymddangos y byddai'r arfau neu'r awdurdod fyddai gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran dylanwadu ar sut mae gofal yn cael ei gomisiynu neu pa ofal sy'n cael ei gomisiynu, yn cael eu cyfyngu i feithrin perthnasoedd, trafod, perswadio neu ddadansoddi. Roedd ymateb gan un bwrdd iechyd yn credu bod angen archwilio'r cynigion ymhellach ac y gellid cefnogi hyn drwy ddatblygu fformiwla i greu grant cymorth cyfatebol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn rhoi eglurder ynghylch yr adnoddau sydd ar gael a bydd yn sail i gynllunio strategol ar gyfer pob rhanbarth. Yn hollbwysig, roedden nhw'n credu y byddai'r dull hwn yn osgoi'r ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Ar ben hynny, roedd ymateb gan y trydydd sector yn credu y dylai Llywodraeth Cymru geisio integreiddio cyllidebau awdurdodau lleol â'r rheini sy'n ymwneud â gofal iechyd er mwyn cefnogi cydgynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth ymhellach. Heb integreiddio pellach, credwyd y bydd cystadleuaeth rhwng gwasanaethau'n dal i fodoli ac ni fydd cymaint o wybodaeth ac arferion gorau yn cael eu rhannu. Dywedodd un bwrdd iechyd nad yw cyllidebau cyfun wedi bod yn effeithiol hyd yma. Credai Cydffederasiwn y GIG y gallai'r materion sylfaenol sy'n ymwneud ag adnoddau cyfun ddeillio o'r anhawster o gael nifer o awdurdodau lleol mewn ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cronni arian a allai ariannu gwasanaethau eraill a diffyg bwriad ar lefel strategol i gyflawni canlyniadau gwell. Roedd ymateb gan y sector iechyd yn credu os bydd yn rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddal cyllidebau, mae hyn yn arwydd nad yw partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu neu eu bod yn anfodlon gweithio mewn modd o'r fath. Mewn ymateb, roeddent yn meddwl y dylid datrys yr amharoddrwydd neu'r anallu hwnnw yn hytrach na newid strwythur y sefydliad.

Gofynnodd rhai awdurdodau lleol am eglurder ynghylch y rhesymeg dros gredu y byddai cyllidebau cyfun ar lefel ranbarthol yn arwain at well canlyniadau i bobl yng Nghymru. Cyfeiriodd Comisiynydd Plant Cymru yn benodol at y ffaith nad yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 'dal' cyllidebau fel endidau ynddynt eu hunain fel rhwystr i weithio ar y cyd go iawn, a chredai y dylai cronfeydd cyfun fod ar gael yn rhanbarthol ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, gan gynnwys llety diogel wedi'i gomisiynu ar y cyd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Roedd un mudiad ymbarel sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol o'r farn bod angen comisiynu gwasanaethau arbenigol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Nododd Archwilio Cymru y gallai endidau cyfreithiol ddarparu ffordd gryfach o fynd i'r afael â'r sbectwm llawn o rolau comisiynu, gan gynnwys llunio'r farchnad, a allai helpu i fynd i'r afael â'r materion o ymddiriedaeth sy'n bodoli yn y system bresennol, yn ogystal â chreu gwell cyflenwad o wasanaethau arbenigol. Holodd y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol pam nad yw gwaith rhanbarthol wedi canolbwyntio ar Gyngorau Iechyd Cymuned a'u bod wedi'i eithrio'n benodol o ystyriaethau cronfa gyfun, a'u bod yn credu bod yn faes lle mae angen cyllidebau cyfun, gwell arweinyddiaeth ac integreiddio.

Roedd bwrdd iechyd arall o'r farn y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol yn galluogi dyrannu cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru i yn uniongyrchol, ac y byddai'n dileu'r angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn 'fanciwr' ar gyfer cyllid. Roedden nhw'n meddwl y gallai hyn symleiddio prosesau ariannol a

lleihau'r baich gweinyddol presennol ar Fyrddau Iechyd yn sylweddol. Fodd bynnag, roedd yr ymateb hwn yn nodi y byddai'r heriau sy'n gysylltiedig ag atebolrwydd lleol yn parhau.

O ran capasiti, roedd nifer o sefydliadau statudol yn credu ei bod yn llawer symlach cytuno ar swyddi a rennir rhwng sefydliadau na chael trydydd endid neu sefydliad i greu swyddi staffio ychwanegol. Roedd awdurdodau lleol yn cwestiynu capasiti'r gweithlu ac yn codi pryderon ynghylch gostyngiad yng nghapasiti, sgiliau ac adnoddau awdurdodau lleol. Yn yr un modd, mynegodd ymateb gan un bwrdd iechyd lleol bryder y gellid colli staff allweddol, ac y gallai gwasanaethau presennol gael eu darnio os bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflogi staff yn uniongyrchol. Mewn ymateb, gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd secondio comisiynwyr i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac i becynnau hyfforddi fod ar gael i gryfhau eu profiad a'u gwybodaeth, gan felly feithrin gallu lleol. Roedd rhai'n credu bod perygl gwirioneddol y gallai partneriaid dynnu'n ôl o'r bartneriaeth ar y lefelau presennol os ydynt o'r farn bod corff arall yn cael adnoddau i 'wneud y gwaith'. Roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn y gallai cyflogi staff yn uniongyrchol wella atebolrwydd a hygyrchedd gwybodaeth am weithgareddau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn grymuso pobl i wybod mwy am y gwaith hwn. Roedd un dinesydd yn credu y gallai cael Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endid cyfreithiol ar wahân helpu gyda'r canfyddiad o annibyniaeth a didueddrwydd gan y bydd y staff ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi gan un o'r sefydliadau partner ac byddant yn aml wedi cael eu lleoli'n bennaf yn un o'r sefydliadau. Roedd corff sy'n cynrychioli'r sector annibynnol yn credu y byddai gallu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflogi ei staff ei hun yn eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyfer dadansoddi anghenion strategol y boblogaeth ac adrodd ar sefydlogrwydd y farchnad drwy gael gwared â phwysau sy'n cystadlu â'i gilydd. Galwodd un mudiad trydydd sector am gapasiti statudol i sicrhau ymgysylltu, drwy swyddog ymgysylltu sy'n gallu sicrhau bod yr holl grwpiau lleiafrifol neu ymylol yn cael eu cynnwys yn llawn.

Tynnwyd sylw yn nifer o'r ymatebion gan y trydydd sector at y ffaith nad yw ffurfweddiad presennol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi digon o gyfleoedd i bobl chwarae rôl gyfartal a chael dweud eu dweud am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Roedden nhw'n credu bod yn rhaid cael gwell ymgynghori a chydgynghyrchu er mwyn sicrhau bod anghenion carfannau o bobl sydd â phroblemau iechyd penodol yn llywio'r gwaith o ddylunio gwasanaethau. Galwodd corff sy'n cynrychioli gofalcwyr i ofalcwyr gael eu talu am eu hamser, beth bynnag fydd statws cyfreithiol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn cydnabod eu hymrwymiad amser ac i hwyluso ymgysylltu ystyrlon â gofalcwyr. Credwyd y byddai hyn yn arwain at gydgynghyrchu ac at wneud penderfyniadau gwell.

Cyfeiriodd nifer o ymatebion y trydydd sector hefyd at heriau wrth ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan cwestiynu effeithiolrwydd cynrychiolaeth y trydydd sector ar y byrddau a galw am ehangu aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu galluoedd, gan gynnwys sefydliadau ymbarel y trydydd sector, cyrff proffesiynol, undebau llafur a chynrychiolaeth o sefydliadau dielw. Roedd rhai o ymatebion y trydydd sector yn credu y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol yn arwain at welliannau posibl mewn cyfleoedd i ymgysylltu â'r trydydd

sector. Fodd bynnag, roedd un ymateb trydydd sector yn rhybuddio petai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu sefydlu fel endidau cyfreithiol, a fyddai hyn yn ffordd realistig o wella tegwch ledled Cymru. Ar y llaw arall, tynnodd CLILC sylw at oblygiadau niferoedd sylweddol o amgylch y bwrdd o ran cynyddu maint agendâu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn benodol mewn perthynas ag atebolrwydd, awgrymwyd mewn nifer o ymatebion gan bob sector y dylid ystyried y rhwymedigaethau ar unigolion a goblygiadau cyfreithiol trosglwyddo swyddogaethau (yn enwedig mewn perthynas â diwallu anghenion a diogelu), petai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu sefydlu fel endidau cyfreithiol. Gofynnodd un ymatebydd pwy fyddai'n destun Adolygiad Barnwrol, achos cyfreithiol neu gamau gweithredu gan yr Ombwdsmon am unrhyw beth sy'n digwydd naill ai i berson sy'n cael gwasanaeth neu os byddai darparwr gwasanaeth yn cwyno am wasanaeth sydd wedi cael ei gomisiynu, ei gontractio gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, neu drwy eu cyllideb.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebion at y costau ychwanegol o sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol, er enghraifft gwasanaethau Adnoddau Dynol, cyfreithiol, cyllid ac archwilio pwrpasol, trosglwyddo staff drwy TUPE, rolau caffael – sy'n aml yn cael eu darparu gan sefydliadau partner am eu pris/ mewn nwyddau ar hyn o bryd. Roedd rhai ymatebion yn disgrifio rhannu swyddogaethau cefn swyddfa ar hyn o bryd. Roedd rhai ymatebion yn cwestiynu a fyddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol yn cyfeirio adnoddau oddi wrth y rheng flaen.

Yn gyffredinol, credwyd y byddai gwerthuso gwasanaethau a monitro canlyniadau yn amlach yn fuddiol, ac y byddai angen cymorth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w galluogi i wneud hyn. Roedd ymateb gan un Bwrdd Iechyd Lleol yn credu y dylai fframwaith canlyniadau integredig cenedlaethol bennu'r canlyniadau y bydd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cyflawni dros y cyfnod o 5 mlynedd yn unol â Cymru Iachach. Byddai cynlluniau rhanbarthol yn nodi sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol. Roedd un ymateb yn galw am fuddsoddiad yn yr Adnodd Data Cenedlaethol, ac yn benodol, sefydlu systemau gwybodaeth a rennir a dangosfyddau sy'n darparu data hydredol a data tueddiadau a gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau.

Roedd un dinesydd yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhydd i ddal Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn atebol. Roedd un dinesydd arall o'r farn y byddai dal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn atebol i gorff cenedlaethol yn sicrhau mwy o gysondeb yn eu dull gweithredu. Roedd un arall yn meddwl y gallai gwneud y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn atebol i'r corff cenedlaethol, arwain at newid go iawn, o ran arweinyddiaeth, ymddygiad a hyblygrwydd wrth gomisiynu. Roedd un arall o'r farn y byddai rhoi statws cyfreithiol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gwneud hi'n haws symud oddi wrth ymddygiad sefydliadol.

Roedd sefydliadau'r trydydd sector a dinasyddion yn credu bod angen dal byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fwy atebol i'r cyhoedd, naill ai ar eu ffurf bresennol neu fel endidau cyfreithiol corfforaethol.

Awgrymwyd fod iechyd y cyhoedd yn faes y mae angen ei gryfhau mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Credwyd y gallai cynnwys swyddogaethau iechyd y cyhoedd yn gryfach yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gefnogi ymyrryd ac atal cynnar a'r swyddogaethau ehangach o ran cynllunio galw a chapasiti. Yn benodol, byddai hyn yn golygu bod modd gweithio'n agosach gyda meddygon teulu a chysylltu â rôl gorfodi cynghorau mewn meysydd fel diogelwch bwyd, iechyd yr amgylchedd a gwarchod y cyhoedd. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn ei bod yn adeg briodol i ystyried creu rôl gwella iechyd y cyhoedd mewn llywodraeth leol, ac maent yn galw am drosglwyddo rhai o'r swyddogaethau hyn o lechyd Cyhoeddus Cymru, o fewn y GIG, i Awdurdodau Lleol.

Roedd nifer o'r ymatebion yn credu nad oedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cynnwys Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond roeddent yn nodi fod y posibilrwydd o ymestyn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol yn achos pryder. Roedd un ymateb gan awdurdod lleol yn credu y gellid ystyried sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol fel creu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy'r drws cefn. Dywedodd un arall fod y cynigion yn teimlo fel rhanbartholi gofal cymdeithasol. Galwodd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru am drafodaeth ynghylch y penderfyniad i beidio â sefydlu model llywodraethu yn seiliedig ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan alw am ddealltwriaeth bellach o'r bwriad polisi tymor hwy (gan gysylltu â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig). Wrth edrych ar y trefniadau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen cydnabod yn y strwythur gwneud penderfyniadau mai strwythurau atebolrwydd y prif bartneriaid, awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddefnyddio arian cyhoeddus.

O ran amseriad y camau nesaf, roedd un sefydliad trydydd sector yn cwestiynu a oedd sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol yn rhywbeth y mae angen ei ystyried ar hyn o bryd wrth ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol, neu a yw hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried pan fydd y fframwaith ar waith. Pe bai'r cynnig yn y papur gwyn yn cael ei ddatblygu, credwyd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddechrau ar raddfa 'fach' cyn ystyried ychwanegu swyddogaethau eraill. Roedd rhai'n dehongli (ac yn croesawu) y cynigion fel rhai caniatol, sy'n golygu na fyddai rheidrwydd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gymryd y statws newydd, i ddechrau o leiaf. Roedd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwent yn credu mai partneriaid yn y rhanbarth ddylai benderfynu ar yr opsiwn i ymgorffori Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol, gan eu sefydlu pan fyddant yn barod i gymryd y cam hwn (ac os ydynt yn dymuno cymryd y cam hwnnw).

Argymhellwyd hefyd, os caiff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu sefydlu fel endidau cyfreithiol corfforaethol, bod y ddeddfwriaeth gyfatebol yn sicrhau ei bod yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a'u bod yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd, cwestiynwyd a fyddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu dynodi'n gyrrff Cofnodion Cyhoeddus Cymru ac o fewn cwrpas y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Fel arall, gallai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi trefniadau ffurfiol ar waith gyda gwasanaeth archifau


awdurdod lleol neu bennu gwasanaeth archifau lleol sydd â chyfrifoldeb ym mhob achos.

Ar ben hynny, awgrymwyd bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu gwneud yn destun archwiliad ac arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. O ran cyd-archwilio swyddogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gryfach i dynnu sylw at faterion a sbarduno gwelliannau, nodwyd bod gwahaniaeth mawr yn y cyd-destun rheoleiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Efallai y bydd yn rhaid i'r gwasanaethau ymateb yn wahanol i argymhellion ar gyfer gweithredu a gwella gan AGC ac AGIC o ganlyniad i'r gwahanol bwerau cyfreithiol sydd gan bob sefydliad ar hyn o bryd. Sefydlwyd grŵp cynghori yn 2019 i dreialu dull o arolygu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo. Os bydd y peilot hwn o arolygiadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn llwyddiannus, bydd angen ystyried unrhyw ychwanegiad parhaol at raglen arolygu AGIC o safbwynt y goblygiadau o ran adnoddau a fydd yn deillio o hyn.

Cwestiwn 8 - A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 8 wedi'i nodi yn Ffigur 9.



Roedd dros dri chwarter yr ymatebion a gafwyd (83%) yn cytuno neu'n tueddu i gytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd data yn y broses gynllunio ac yn meddwl y byddai gwybodaeth gryno sy'n cael ei diweddarau'n aml yn fwy ymatebol i newidiadau yn y boblogaeth. Nododd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwent nad cynllunio parhaus ddylai fod y nod wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth, ond yn hytrach ymateb i newidiadau yn y galw ac adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o brofiad. Cyfeiriodd rhai at yr angen i ddysgu o'r pandemig wrth ystyried data amser real wrth wneud penderfyniadau.

Roedd canran sylweddol lai o ymatebwyr (8%) yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r cwestiwn. Roedd y rheini a oedd yn anghytuno yn tueddu i dynnu sylw at y cydbwysedd rhwng defnyddio data amser real a'r adnoddau sydd eu hangen a'r baich a roddir ar wasanaethau i'w ddarparu. Rhybuddiodd ymateb gan ddinesydd bod casglu a dadansoddi data ond yn ddefnyddiol os yw'n cael ei ddefnyddio a'i fod yn arwain at newid. Galwodd darparwyr annibynnol am eglurder cyn casglu data ynghylch pa ddata fydd yn cael ei ddefnyddio ac ba raddau y bydd yn dylanwadu ar benderfyniadau.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn disgrifio'r syniad o gasglu gwybodaeth unwaith, a'i darparu mewn ffordd hygyrch a thryloyw i bawb ei defnyddio. Soniodd nifer o ymatebwyr am Strategaeth Data Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r porth data a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (sy'n cynnwys y hen system Daffodil) i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chomisiynu. Roedd Arolygiaeth Gofal Cymru yn credu bod cyfle i hyrwyddo a ffurfioli mwy o rannu data a thryloywder ar draws darparwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr er mwyn gwella gwasanaethau. Roedd llawer yn galw ar bob partner i gydgyhyrchu set ddata. Croesawodd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol y gwaith o dreialu system rhannu data am y gweithlu ar draws darparwyr, rheoleiddwyr a chomisiynwyr. Roedd ymateb gan un bwrdd iechyd yn credu y dylai data a rennir fod yn sail i broses cynllunio'r GIG a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd un darparwr yn croesawu cael dull cyson o gasglu data, nad yw'n feichus i ddarparwyr, ac yn lleihau dyblygu.

Yn benodol mewn perthynas â'r farchnad, roedd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn hyrwyddo mwy o rannu data a thryloywder ar draws darparwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr, gan ganolbwyntio ar sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad, ansawdd a gwerth gyda'r nod o wella gwasanaethau. Byddai data tueddiadau hydredol sy'n gysylltiedig â'r farchnad yn ddefnyddiol, yn enwedig gwybodaeth / trosolwg o'r farchnad. Roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn y byddai monitro'r ddarpariaeth ac adolygu sefydlogrwydd y ddarpariaeth honno'n rheolaidd yn arwydd o ddigonolrwydd y ddarpariaeth honno. Yn yr un modd credai un aelod o'r trydydd sector y byddai mynediad at ddata a rennir yn chwarae rhan hollbwysig o ran sicrhau bod anghenion a darpariaeth gwasanaeth yn cael eu cyfateb yn briodol. Yn yr un modd, dywedodd un arall mai dim ond drwy wybodaeth reolaidd wedi'i diweddarau a fyddai'n galluogi'r gwasanaethau iawn i fod ar gael yn yr ardaloedd iawn. Dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys y dylid monitro adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn amlach na'u cylch arfaethedig o 5 mlynedd, gan fod y farchnad yn gallu newid yn gyflym, a byddai cylch o 5 mlynedd yn annigonol o ran casglu'r data hwn. Cododd un awdurdod lleol y mater o'r angen i sbarduno gwelliannau i wasanaethau o fewn y system gyfan, gan gwestiynu a oedd risg bod y gofynion cenedlaethol yn achosi i amgylchedd anhrefnus ddod i'r amlwg gyda'r angen i sefydlu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, Strategaethau Comisiynu Rhanbarthol, adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a datganiadau sefyllfa'r farchnad – pob un gydag elfennau o ddyblygu ynddynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o'r sector statudol yn credu bod y capasiti i ddadansoddi data a gwybodaeth yn hollbwysig, ac mae'n faes lle nad oes digon o adnoddau ar hyn o bryd, gyda bwlch mewn sgiliau a chapasiti i ddehongli'r data. Dywedodd nifer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol nad oes ganddynt y capasiti i gasglu, dadansoddi a dehongli data er mwyn greu gwybodaeth fusnes ystyrlon i lywio penderfyniadau gweithredol a chynllunio strategol. Roedd un dinesydd yn teimlo bod pobl yn tueddu i droi'n ôl at yr wybodaeth sydd ar gael nad yw o reidrwydd yn briodol, yn hytrach na nodi'r wybodaeth hanfodol a sefydlu'r systemau i'w chasglu a'i dadansoddi. Roedd nifer o awdurdodau lleol o'r farn y byddai bwlch o ran adnoddau, pe bai'r disgwyliad ynghylch amllder casglu a dadansoddi yn cynyddu. Roedd un bwrdd iechyd o'r farn mai'r her yw bod gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd y gallu i gynllunio, darparu gwybodaeth a chomisiynu i ddefnyddio'r data hwn yn iawn i greu gwybodaeth ddefnyddiol fel sail ar gyfer cynllunio a chomisiynu. Yn

benodol mewn perthynas â'r trydydd sector, credai un awdurdod lleol fod mynediad at ddadansoddiad ystadegol yn hanfodol gan nad oes gan lawer o ddarparwyr fynediad at alluoedd dadansoddi o'r fath, fel yn y sector statudol.

Argymhellodd rhai y dylid defnyddio'r un data i lywio prosesau cynllunio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol a chlwstwr er mwyn llywio cynlluniau a chomisiynu tymor byr a thymor hir. Roedd nifer fach o ymatebion o bob sector yn credu y dylid cael tîm canolog ar gyfer prosesu a dadansoddi gwybodaeth, sydd wedyn yn dosbarthu tueddiadau allweddol a phwyntiau dysgu i dimau lleol i'w hintegreiddio i wybodaeth leol o ffynonellau eraill. Yna byddai modd defnyddio hyn i gyd wedyn fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau'n well yn lleol. Roedd ymatebion eraill yn credu bod cydbwysedd yma rhwng yr hyn sydd angen digwydd a chael ei gydlynw ar lefel ranbarthol a'r hyn sydd ond yn gallu cael ei gasglu a'i weithredu arno ar y lefel leol, gan ymateb i anghenion lleol.

O ran canlyniadau, roedd gwahaniaeth barn ynghylch y gallu i ddiffinio canlyniadau'n briodol ar lefel genedlaethol heb law am fesurau canlyniadau'r boblogaeth gan fod canlyniadau unigol wedi'u teilwra ar sail 'beth sy'n bwysig' o fewn dull sy'n seiliedig ar leoedd ar lefel leol. Disgrifiwyd y canlyniadau fel pethau a brofwyd gan bobl ac data oedd angen ei echdynnu gan bobl, eu cynlluniau gofal a gweithwyr rheng flaen. Roedd ymateb gan y sector academiaidd yn credu y dylid datblygu adnoddau canlyniadau dibynadwy a dilys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a fyddai'n helpu i werthuso gwasanaethau. Byddai cael set gyson o fesurau canlyniadau yn helpu cymhariaeth ar draws gwasanaethau. Roedd y trydydd sector yn credu ei bod yn bwysig peidio â chanolbwyntio ar ddata meintiol ac ystadegau yn unig, gan fod profiadau go iawn pobl yn hanfodol i ddarparu manylion am anghenion pobl a llwyddiant gwasanaeth. Roedd sefydliad ymbarél sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol yn credu pe bai hyn yn cael ei ystyried ar lefel ranbarthol, yna gallai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu sgiliau newydd a gwell perthynas â'r cyhoedd, er mwyn cael y data angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd dan yr anfantais fwyaf, a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Amlygwyd bod ymgysylltu, cydgynhyrchu a thryloywder gyda chymunedau yn angenrheidiol wrth drawsnewid gwasanaethau a gwella ansawdd gwasanaethau. Yn ogystal, nododd un bwrdd iechyd yr her ymarferol o beidio â chael fframwaith canlyniadau y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda chyfres o fesurau cyffredin.

Soniodd nifer o ymatebion am amllder casglu ac adrodd ar ddata. Yn gyffredinol, teimlwyd nad yw cynllunio tymor hir drwy gylch o bum mlynedd yn ddigon hyblyg i ymateb i dueddiadau sy'n newid neu ddigwyddiadau annisgwyl. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr bwysigrwydd cynllunio tymor hir i osod cyfeiriad a gweledigaeth, ochr yn ochr ag adolygiad tymor byrrach, ac ystyriwyd yn gyffredinol y byddai'n briodol gwneud hyn yn flynyddol, yn hytrach nag yn 'amser real' (rhai o'r amserlenni adrodd eraill a awgrymwyd oedd 'system marchnad fyw', dyddiol, wythnosol, misol, chwarterol a chwe misol). Roedd un cymdeithas dai o'r farn bod angen i wybodaeth am y boblogaeth a'r farchnad fod mor fyw â phosibl, ac y byddai angen ei hadnewyddu'n rheolaidd i sicrhau bod newidiadau i'r boblogaeth yn cael eu nodi fel y maent yn digwydd cyn belled ag y bo modd. Credai un awdurdod lleol y dylid casglu a dadansoddi data yn flynyddol, ond ar sail leol a rhanbarthol gyda phartneriaid a phobl yn ymateb i newidiadau yn y galw a'r angen yn lleol. Dywedodd un darparwr iechyd y byddai proses y GIG o adolygiadau mewnlol tymor byr a thymor canolig o

fewn cylch cynllunio hir yn enghraifft dda i'w dilyn. Nodwyd bod adroddiadau blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn fecanwaith ar gyfer ystyried newidiadau yn anghenion y boblogaeth a darpariaeth gwasanaethau gan ddefnyddio data amlach, o dan asesiadau anghenion y boblogaeth ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn y tymor hwy. Galwodd corff sy'n cynrychioli darparwyr annibynnol am i'r seilwaith data gasglu data'n awtomatig (ond yn ddiogel) o systemau heb ddefnyddio trefniadau cofnodi data llafur-ddwys, os penderfynir bod angen data 'amser real'.

Cwestiwn 10 - Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?

Nododd llawer o'r ymatebion nad oedd digon o fanylion wedi'u darparu am y swyddfa genedlaethol arfaethedig nac ynghylch gwneud y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol er mwyn gallu rhoi sylwadau priodol ar y cwestiynau hyn. Byddai angen gwybodaeth yn ymwneud â staffio, rolau a strwythur llywodraethu er mwyn deall unrhyw oblygiadau sy'n ymwneud â chostau neu arbedion cost. Yn ogystal, roedd galw am ddadansoddi gwerth ychwanegol endidau o'r fath o ran eu cost a'u budd i ddinasyddion, a nodwyd mai darparu gofal a gwasanaethau cynaliadwy, cyfartal o ansawdd gwell ddylai fod nod newid deddfwriaethol.

Yn ogystal, dywedodd nifer o'r unigolion a ymatebodd na fydd gofal cymdeithasol da yn digwydd heb fuddsoddiad a hefyd nad yw integreiddio gwasanaethau'n arwain yn awtomatig at arbedion cost, a nododd llawer fod biwrocratiaeth yn gostus. Bydd arbedion cost ond yn cael eu cyflawni pan fydd mwy o fuddsoddi a ffocws ar wasanaethau ataliol fel nad oes angen gwasanaethau wedi'u comisiynu am gost uchel ar unigolion. Yn ogystal, credai un bwrdd ieuchyd lleol fod effaith y fframwaith cenedlaethol yn debygol o fod yn gyfyngedig os na roddir sylw i'r materion ariannu sylfaenol.

Teimlwyd y byddai sefydlu a chynnal endid cyfreithiol yn golygu costau sefydlu sylweddol ac yna costau parhaus. Nododd nifer y byddai angen arianu swyddi newydd o fewn yr endid e.e. swyddog Adran 151, archwilio, AD, cyfreithiol. Gallai fod goblygiadau TUPE hefyd i staff sydd eisoes mewn swyddi sy'n cefnogi gweithgarwch rhanbarthol a/neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddai hefyd angen yswiriant priodol i warchod rhag atebolrwydd yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir ac unrhyw oblygiadau cyfreithiol a allai godi os aiff rhywbeth o'i le neu pe bai'r endid yn destun her gyfreithiol neu adolygiad barnwrol.

Cafwyd sylwadau gan Undebau Llafur ar sicrhau bod telerau teg ar gael ar draws pob tîm a fyddai'n cael ei greu, gan sicrhau mai gweithlu dwy haen fyddai'r canlyniad anfwriadol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, teimlwyd y gellid arbed rhywfaint o gostau. Cododd rhai awdurdodau lleol y mater o sicrhau bod y strwythurau a fydd yn cael eu sefydlu yn gallu cynnal ei fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd pwysigrwydd hyn wrth ddarparu gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol. Mae pryder y byddai rhanbartholi neu wladoli yn gwanhau hyn i lefel niweidiol.

Roedd rhai sefydliadau sector cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn teimlo y gallai rhywfaint o weithgarwch, o'i wneud yn genedlaethol ar sail 'unwaith dros Gymru', arbed amser i swyddogion. Roedd y mathau hyn o weithgarwch yn

ymwneud ag eitemau 'pris mawr' fel yr isafswm cyflog cenedlaethol a thelerau ac amodau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n deg â gweithwyr y GIG.

Codwyd llawer o bryderon ynghylch o ble y byddai'r cyllid ychwanegol yn dod, ac ofnwyd y byddai'n cael ei dynnu oddi wrth ddarpariaeth gofal cymdeithasol rheng flaen, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar y canlyniad rydym yn ceisio'i gyflawni yn yr achos dros newid yn yr ymgynghoriad. Roedd un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn credu bod unrhyw arbedion cost yn debygol o ddeillio o'r rhaglenni trawsnewid sy'n digwydd ym mhob rhanbarth yn hytrach nag o'r atebion sy'n cael eu cynnig yn y Papur Gwyn. Hyd yn oed gyda mwy o alw am gomisiynu rhanbarthol, teimlwyd bod costau cynnal Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar eu statws presennol yn mynd i arwain at gostau ychwanegol ac mae pryder eisoes yn codi gan ein bod wedi cyrraedd blwyddyn olaf ffrydiau ariannu allweddol fel y Gronfa Gofal Integredig a'r grantiau Trawsnewid. Mae'n ymddangos yn fwy rhesymegol i rai y byddai'n well gwario'r cyllid ychwanegol a fyddai'n ofynnol ar gyfer sefydlu swyddfa genedlaethol ac endid cyfreithiol yn gwella ansawdd gwasanaethau drwy dalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol i weithwyr gofal. Fodd bynnag, teimlai un ymateb dienw fod angen cynyddu capasiti'r staff sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau i gomisiynu oherwydd y cynnydd mewn anghenion a'r angen i ddatblygu gwasanaethau arloesol e.e. Defnyddio mwy o dechnoleg a gwasanaethau ail-alluogi.

Teimlai rhai mudiadau trydydd sector fod angen ffrwd gyllido benodol ar gyfer eu sector ac roeddent o'r farn y gallai swyddfa genedlaethol fod yn gost-effeithiol ond roeddent yn rhybuddio yn erbyn yr hyn sy'n cael ei alw'n olwg sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd, ond roeddent yn cydnabod y byddai cael swyddfa genedlaethol mewn nifer o leoliadau yn ychwanegu at y costau ac y gallai'r costau fod yn fwy na'r manteision o'u sefydlu yn y lle cyntaf. Er bod sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol yn gwneud synnwyr, teimlwyd na fyddai'n gweithio pan fydd yr atebolrwydd am gynaliadwyedd y farchnad a chyllidebau yn aros gyda'r awdurdod lleol, ac mae gan rai awdurdodau lleol ddarpariaeth gofal mewnol hefyd. Codwyd rôl y swyddfa genedlaethol gan ei bod yn ymddangos ei bod yn dyblygu'r elfennau sydd eisoes yn gyfrifoldeb i Arolygiaeth Gofal Cymru neu Gofal Cymdeithasol Cymru fel y gweithlu, sefydlogrwydd y farchnad, ymchwil ac arferion gorau. Cyfeiriodd un sefydliad trydydd sector hefyd at y gost i gynrychiolwyr y sector sy'n aelodau o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae eu hamser yn costio arian i'r sefydliad sy'n eu cyflogi. Hefyd, roedd un sefydliad trydydd sector yn teimlo y dylid ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella a chynyddu eu gallu i gydgyhyrchu a chyflawni gwaith cynllunio partneriaeth yn hytrach na chyllid i'w creu fel endid cyfreithiol.

Dywedodd corff ymbarel sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol fod y rhan fwyaf o'i gyfranogwyr yn poeni bod haenau biwrocraidaidd yn sugno arian oddi wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen gyda thimau mwy yn defnyddio arian y gellid ei ddefnyddio'n well mewn gwaith ataliol a darpariaeth gofal cymdeithasol yn y gymuned. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn bwysicach o lawer cael cyllid i wella cydgynhyrchu na chael newidiadau strwythurol. Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru hefyd yn rhybuddio na fyddent yn cefnogi dargyfeirio cyllid o greu timau integredig neu ddarparu gwasanaethau i greu'r swyddfa genedlaethol na chreu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol.

Mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eisoes wedi cyfuno cyllid craidd i gefnogi cyfarfodydd a seilwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae pryder y byddai cymhelliant gwrthnysig yn cael ei greu lle byddai angen diddymu'r trefniadau crynhoi, a chydabyddiaeth y byddai angen mwy o gyllid i wneud Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol na'r hyn sy'n cael ei gronni ar hyn o bryd.

Cwestiynau am y Gymraeg

Cwestiwn 11- Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 12- Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal mewn Galar yng Nghymru gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Disgrifiwyd pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth fel hawl ac fel mater o angen a rheidrwydd, nid dewis. Roedd Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod peidio â darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r rhai sy'n dymuno eu derbyn yn Gymraeg yn golygu bod ansawdd y gofal y mae'r unigolyn yn ei dderbyn yn ddiffygiol, ac y gallai hyn gael effaith andwyol ar yr unigolyn. Dywedodd llawer bod person dwyieithog yn gallu cyfleu eu pryderon yn well yn yr iaith o'u dewis. Dywedwyd bod hyn yn hanfodol ar draws pob grŵp oedran. Nododd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod dewis iaith yn aml yn bwysig i'r bobl fwyaf bregus a mwyaf agored i niwed, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Ychwanegodd nifer fechan o ymatebion at hyn a nododd mai hyfedredd yn yr ail iaith sy'n cael ei cholli gyntaf pan fydd person dwyieithog yn cael diagnosis o ddementia neu strôc, ac mae hyn yn gallu arwain at amgylchiadau unig ac arwahanrwydd cymdeithasol oherwydd yr rhwystr ieithyddol, os nad oes gwasanaethau ar gael i rywun yn ei iaith gyntaf. Tynnodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru sylw at bwysigrwydd pobl gallu derbyn gwasanaethau yn eich dewis iaith, a pheidio â gorfod cael eu hanfon ymhell o'u cartref, neu o Gymru.

Yn gyffredinol, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen cryfhau digonolrwydd y ddarpariaeth Gymraeg ar draws Cymru er mwyn diwallu anghenion. O ran effaith, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith cynigion ar y Gymraeg wrth iddynt ddatblygu, yn enwedig yr effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg sylw penodol bod angen ystyried ymhellach cyn drafftio unrhyw ddeddfwriaeth. Pwysleisiodd y Comisiynydd hefyd yr angen i ystyried gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gwasanaethau yn Gymraeg, a bod gwella'r gwasanaethau hynny yn

ystyriaeth hollbwysig wrth lunio polisïau a deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai a amlinellir yn y papur gwyn.

Nododd llawer bod dyletswyddau statudol eisoes ar gyrff cyhoeddus i gynllunio a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel yr amlinellir yn Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac y byddai'r dyletswyddau hyn yn parhau i fod yn berthnasol, beth bynnag fo'r newidiadau a gynigir. Ar y sail honno roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar iaith yn credu na fyddai unrhyw effaith (cadarnhaol na negyddol) ar y ddarpariaeth Gymraeg. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno bod y ddyletswydd i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn bodoli eisoes. Aethant ati i amlinellu mai peth pwysicaf yw sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r hawl hon, a'u bod yn cael eu galluogi a'u grymuso i dderbyn unrhyw wasanaethau yn eu dewis iaith.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o'r farn y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cryfhau cydymffurfiaeth â fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, Mwy na Geiriau. Fodd bynnag, galwodd un awdurdod lleol am warant y byddai'r polisi'n cael ei ddatblygu yn unol â Fframwaith Mwy na Geiriau a safonau'r Gymraeg yn y dyfodol. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod egwyddorion allweddol y Fframwaith Mwy na Geiriau wedi'u gwreiddio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan gynnwys bod yn rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg. Roeddent hefyd yn credu ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu trefnu yn ystyried hyn, os byddai fframwaith cenedlaethol yn cael ei sefydlu ai peidio. Roeddent hefyd yn credu y byddai fframwaith cenedlaethol yn gyfle i wreiddio Fframwaith Mwy na Geiriau ymhellach.

Cyfeiriodd nifer sylweddol o ymatebion at rôl comisiynu wrth wella gwasanaethau Cymraeg. Nododd un unigolyn y byddai gwella ymarferion comisiynu yn sicr o wella profiad dinasyddion Cymraeg eu hiaith. Argymhellwyd y dylai'r fframwaith cenedlaethol gyfeirio at ddeddfwriaeth sy'n gwarchod hawliau siaradwyr Cymraeg. Credai rhai fod posibilrwydd y byddai cynnwys y Gymraeg yn y fframwaith cenedlaethol yn dylanwadu ar gryfhau gwasanaethau Cymraeg drwy ddarparu safonau gwaelodlin a disgwyliadau clir ar gyfer darparu darpariaeth Gymraeg a thrwy sicrhau bod darparwyr yn llwyr ymwybodol o safonau'r Gymraeg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn credu'n benodol y gallai hynny, yn ei dro, arwain at wella ansawdd y gwasanaethau y mae siaradwyr Cymraeg yn eu derbyn.

Roedd un awdurdod lleol yn credu fod rhaid i iaith fod yn rhan annatod o unrhyw wasanaeth gofal a gomisiynir. I gryfhau hyn, credai un arall y dylai'r fframwaith cenedlaethol amlinellu meini prawf sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; a dylid rhoi sgôr i hyn yn y gystadleuaeth i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Roedd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwent yn credu y dylai unrhyw ddull fframwaith cenedlaethol arwain at fwy o gysondeb o ran iaith a thermau, a dylai hyn ganiatáu cysondeb o ran defnyddio'r Gymraeg a chysondeb wrth gyfieithu, yn ôl yr angen.

Roedd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r farn bod yn rhaid i'r fframwaith cenedlaethol gynnwys ystyried diwallu anghenion iaith Gymraeg a dylai'r holl strategaethau comisiynu, cynlluniau ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad nodi diffygion a bylchau gyda chynlluniau i fynd i'r afael â'r rhain. Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod argaeledd gwasanaethau a gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn hawl i bob plentyn a dylid rhoi ystyriaeth benodol i hyn wrth edrych ar ddigonolrwydd lleoliadau a threfniadau comisiynu.

Roedd un ymateb gan y trydydd sector yn croesawu'r ffaith bod gan y swyddfa genedlaethol ran yn y gwaith o dynnu sylw at arferion da wrth weithredu safonau'r Gymraeg. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn annog cynnwys gofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau yn y Gymraeg fel elfen ganolog o weithgareddau'r swyddfa genedlaethol drwy brif ffrydio hynny i amcanion y sefydliad a thrwy sicrhau ei fod yn un o gyfrifoldebau craidd bwrdd cynghori'r swyddfa genedlaethol. Awgrymwyd hefyd, os sefydlir swyddfa genedlaethol ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth, ei bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o'r cychwyn cyntaf.

Cafodd cysylltiadau penodol eu gwneud â'r gweithlu a'r her i ddenu, recriwtio a chadw staff sydd â sgiliau Cymraeg. Nododd un awdurdod lleol fod angen mynediad ar y sector at lefelau priodol o staff sydd â sgiliau Cymraeg, ac mae'n bwysig bod staff presennol yn cael eu cadw a bod eraill sydd â diddordeb yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau. Nododd awdurdod lleol arall yr heriau o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yng nghyd-destun diffyg hyder ymysg llawer i alw eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Awgrymwyd, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau iaith, y gellid darparu cyfleoedd a ariennir i ddysgu neu wella sgiliau iaith, megis cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu cwrs sabothol (fel y cwrs i athrawon) a/neu ddarparu cyrsiau byr i godi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar wrth ddarparu gwasanaethau. Teimlai un awdurdod lleol y byddai cael adnodd gwasanaeth canolog o weithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn fuddiol. I'r gwrthwyneb, roedd un arall o'r farn bod yn rhaid i unrhyw fframwaith cenedlaethol bwysleisio'r angen i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan ddarparu lle ar yr un pryd i ddefnyddio atebion lleol a fyddai'n cael yr effaith fwyaf mewn ardal benodol.

Roedd un ymateb gan y trydydd sector yn argymhell y gallai gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau Cymraeg olygu y gallai ardaloedd lle mae mwy o adnoddau ar gael yn Gymraeg rhannu adnoddau â'r ardaloedd hynny lle nad yw'r un ystod o adnoddau ar gael ond sydd dal angen diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Roedd sefydliad ymbarél ar gyfer y sector annibynnol o'r farn y byddai gallu darparwyr i recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o wella pe bai cyfraddau'r ffioedd a gynigir i ddarparwyr yn caniatáu cyflogau a thelerau ac amodau mwy cystadleuol. Roedd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'r farn bod her bosibl o ran cysylltu anghenion iaith â gosod ffioedd, gan nad yw methodolegau'n ystyried cost darparu gwasanaeth dwyieithog a'r gost o wella sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mynegodd Comisiynydd y Gymraeg bryderon nad oes digon o ddata ar gael ar y gweithlu ac anghenion y boblogaeth ar hyn o bryd er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau Cymraeg a'r gweithlu yn ddigonol. Roedd y Comisiynydd o'r farn bod angen adnabod pa ddata newydd y dylid ei gasglu a sefydlu dull o'i ddefnyddio ar draws Cymru er mwyn cynllunio gwasanaethau Cymraeg a'r gweithlu.

O ran cynigion rhanbarthol, mynegodd Comisiynydd y Gymraeg bryderon nad yw pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adlewyrchu siaradwyr Cymraeg yn ddigonol ar hyn o bryd. At hynny, roedd y Comisiynydd yn credu bod diffygion yn yr asesiadau o anghenion y boblogaeth, ac yn atebolrwydd y byrddau. Pe bai'r Byrddau'n cael eu sefydlu fel endidau statudol, argymhellwyd y dylai fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Tynnodd nifer fach o ymatebion sylw at yr angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnal eu busnes yn ddwyieithog, os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny.

Roedd sefydliad trydydd sector o'r farn y dylid ystyried ymateb i anghenion pobl lle nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf, a/neu ar gyfer y rheini sydd angen neu'n ffafrio dulliau cyfathrebu eraill (fel adnoddau hawdd i'w darllen, braille, print bras neu iaith Arwyddion Prydain). Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd hygyrchedd yn gyffredinol. Yn ogystal â dewis iaith, teimlwyd bod sicrhau a hyrwyddo hygyrchedd dogfennau yn sicrhau tegwch a chydaddoldeb. Ac y byddai mynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu ehangach y boblogaeth yn y fframwaith yn galluogi ac yn grymuso pobl sydd ag anghenion gofal i gael mwy o ddewis ac i gyfleu eu hanghenion yn well.

Cynigion eraill

Cwestiwn 9- A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?

Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?

Cwestiwn 13 - Unrhyw sylw arall/sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y cynnig i ddatblygu deddfwriaeth newydd?


Drwy gydol yr ymatebion, nodwyd nifer o themâu craidd, sydd wedi'u rhestru isod:

- Canlyniadau
- Cydgynhyrchu
- Eiriolaeth
- Gwerth cymdeithasol
- Diwylliant ac arweinyddiaeth
- Y Gymraeg
- Cyllid
- Taliadau uniongyrchol
- Deddfwriaeth caffael
- Y gweithlu

Mae'r safbwyntiau yn erbyn y themâu hyn wedi'u cynnwys yn y grynodedd i'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad ac yn cael sylw penodol mewn perthynas â'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau 9 ac 13 isod.

Mae'r ganran o ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno â chwestiwn 9 wedi'i nodi yn Ffigur 10.

Ffigur 10: Cwestiwn 9 - A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?



- **Canlyniadau**

Yn gyffredinol, teimlwyd, er bod y papur gwyn yn nodi bwriad clir i wella ansawdd gwasanaethau, ei fod yn canolbwyntio ar systemau a phrosesau ac felly roedd galwadau i ddisgrifio effaith y newidiadau arfaethedig i'r system ar bobl a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Yn ogystal, cytunwyd bod angen adlewyrchu egwyddorion Deddf 2014, fel llais a rheolaeth, wrth ddatblygu trefniadau newydd neu ddeddfwriaeth ategol fel eu bod wrth wraidd unrhyw ddull newydd o weithredu. Credai ymateb gan un sefydliad trydydd sector ei bod yn hanfodol bod darpariaethau'n cael eu gwneud i sicrhau nad yw ansawdd y gofal yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd o Gymru.

O ran fframwaith cenedlaethol, teimlai'r ymatebion fod fframwaith yn gyfle i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu ar sail canlyniadau a'r hyn sy'n bwysig i bobl. Nododd un ymateb y dylai comisiynu ganolbwyntio ar anghenion y dinesydd, gan gynnig gwasanaeth di-dor rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Soniodd llawer am y cyfle i gomisiynwyr sicrhau bod cynnal hawliau dynol yn un o elfennau craidd gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Roedd un ymateb yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru bennu canlyniadau cydraddoldeb yn y fframwaith comisiynu cenedlaethol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a wynebir gan grwpiau sy'n derbyn gofal cymdeithasol. Roedd y Comisiwn Hawliau Dynol yn credu bod unrhyw arferion comisiynu newydd yn seiliedig ar gydymffurfiaid cryf â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan eu bod yn ceisio dileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a cheisio meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

Soniodd llawer am bwysigrwydd mesur a monitro canlyniadau a phrofiadau. Yn benodol, roedd yr ymatebion yn cytuno y dylai mwy o atebolrwydd i'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal, fod yn rhan annatod o'r gwaith o sicrhau gwelliannau ym mherfformiad ac ansawdd y gwasanaethau gofal. Roedd ymateb gan gorff sy'n cynrychioli'r trydydd sector yn credu ei bod yn bwysig bod y system newydd yn gallu mesur canlyniadau ystyrlon sy'n feintiol ac yn ansoddol. Bydd hyn yn golygu bod angen casglu a dadansoddi data'n barhaus, a fydd yn arbennig o bwysig o fewn cylch pum mlynedd, gan y bydd

yn caniatáu gweithredu'n brydlon mewn ymateb i newid yn anghenion cymunedau. Mae Cwestiwn 8 yn fan cychwyn da ar gyfer y sgwrs hon ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, gan y bydd gan ddata ran ganolog yn y gwaith o sicrhau bod anghenion a gwasanaethau'n cael eu cyfateb yn gymesur.

Nododd awdurdodau lleol yn benodol mai'r man cychwyn ar gyfer trafodaethau yw gwella ansawdd gofal a sicrhau canlyniadau i unigolion, ar sail y sgwrs 'beth sy'n bwysig iddynt'. Tynnwyd sylw ganddynt at yr angen i gadw system gofal cymdeithasol sy'n cael ei harwain, ei chomisiynu a'i darparu'n agos at gymunedau lleol, gan alluogi penderfyniadau am gyllid i gael eu gwneud gyda phobl leol sy'n golygu mai'r hyn sy'n cael ei gomisiynu yw'r hyn sydd wir yn bwysig i bobl. Dylai adeiladu ar gryfder awdurdodau lleol yn eu rôl yn eu lle ac yn eu cymuned, gan roi sylw i anghenion unigolion a theuluoedd, meithrin gwytnwch a chanolbwyntio ar les. Roedd ymatebydd o'r trydydd sector o'r farn y dylid rhoi fframwaith cenedlaethol ar waith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. I gefnogi hyn, nododd ymateb y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod anghenion dinasyddion yn gymhleth, felly mae angen amrywiaeth o wasanaethau rhanbarthol, lleol a chlwstwr sy'n galluogi dewis go iawn yn hytrach na dewis tybiedig.

Roedd sefydliad sy'n cynrychioli'r trydydd sector yn credu ei bod yn bwysig pwysleisio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y gymuned, yn lleol ac yn seiliedig ar leoedd, er mwyn symud oddi wrth y monopoli sydd ar waith ar hyn o bryd, a chreu amgylchiadau lle mae mudiadau'n adnabod eu cymunedau ac yn cael cyfle teg i ddarparu gwasanaethau pwrpasol wedi'u teilwra drwy brosesau comisiynu gwerth cymdeithasol.

- Gwerth cymdeithasol

Yn gyffredinol, croesawyd y cynnig i ailgydbwyso'r sector tuag at werth cymdeithasol. Credai un mudiad trydydd sector y gallai'r sector gofal a chymorth yng Nghymru ddarparu gwerth cymdeithasol ehangach y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir: gan helpu i adeiladu a chefnogi cymunedau drwy gynnig cyflogaeth gynaliadwy mewn cymunedau lleol, cynnig hyfforddiant a chamu ymlaen yn eu gyrfa i helpu i adeiladu cymunedau gofal mewn ardaloedd gwledig a threfol ledled Cymru.

Nodwyd bod perthnasoedd yn bwysig iawn er mwyn datblygu comisiynu sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol. Galwyd am newid tuag at ddull gweithredu mwy cydweithredol, sy'n cael ei arwain gan y gymuned, lle mae gan y sector cyhoeddus ran ymarferol yn y gwaith o adeiladu a meithrin cymunedau er mwyn creu amgylchedd o gydweithio a gwytnwch. Mae posibilrwydd i sefydliadau sy'n cael eu harwain gan aelodau, ac sy'n cael eu lansio gyda model annibynnol, gynnig ateb radical i'r heriau hyn, a dylid ymchwilio ymhellach i hyn. Nodwyd hefyd y dylai unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a hyrwyddo modelau gofal a chymorth amgen.

Derbyniwyd bod pris wedi bod yn ffactor niweidiol amlwg, gyda gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu ar draul darparu'r hyn sy'n bwysig i bobl ac mae wedi'i gwneud yn anodd tyfu a buddsoddi mewn sefydliadau Adran 16 sy'n darparu modelau darparu gwasanaeth amgen. Er y gallai cynigion fod o gymorth, nid yw o reidrwydd yn golygu y bydd mwy o fuddsoddi mewn modelau darparu amgen, ac

efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol penodol ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith. Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at y ffactorau sy'n gallu tanseilio a llesteirio'r gwaith o hyrwyddo gwerth cymdeithasol. Cytunwyd bod angen gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy ar Gymru sy'n cael ei gefnogi gan Gyflog Byw Gwirioneddol, sy'n cynnig sicrwydd swydd a chydabyddiaeth er mwyn adeiladu gwasanaethau cynaliadwy sy'n gallu canolbwyntio ar ansawdd a chysondeb gofal.

Roedd yr ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar ailgydbwysu'r farchnad gofal cymdeithasol tuag at ddarpariaeth fewnol sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor neu o leiaf tuag at ddarpariaeth 'dielw', yn nodi bod cyllid yn allweddol i lwyddiant, yn enwedig o ran cydraddoldeb rhwng staff gofal cymdeithasol a staff gwasanaethau ieuchyd. Roedd y sector annibynnol yn cydnabod bod nifer fawr o wahanol fathau o ddarparwyr e.e. cadwyni mawr a busnesau "mam a dad" fel y cydnabyddir yn Strategaeth Economaidd y Llywodraeth, Ffyniant i Bawb, a darparwyr trydydd sector i gyd yn cynnig rhywbeth tuag at ecoleg gymysg y gwasanaethau, y gellir ac y dylid ei defnyddio i wella gwasanaethau i ddinasyddion. Ni ddylid diystyru gallu pob math o wasanaethau i ddarparu gwerth cymdeithasol.

Awgrymwyd y gallai Fforymau Gwerth Cymdeithasol ddatblygu i fod yn gorff sy'n gallu arbrofi a gwneud argymhellion ynghylch y mathau o fodolau gwerth cymdeithasol sy'n gallu darparu gwasanaethau gofal a chymorth cynaliadwy mewn cymunedau lleol. Dywedodd ymatebwyr ei bod yn hanfodol i Fforymau Gwerth Cymdeithasol ryngweithio â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a swyddfa genedlaethol, ond mae'n gwestiwn a fydd hyn yn arwain at greu gormod o haenau strwythurol, a fydd yn arwain at ormod o fiwrocratiaeth yn y pen draw.

- Cydgynhyrchu

Roedd cydgynhyrchu'n thema a amlygwyd mewn llawer o ymatebion ynghylch datblygu cynlluniau gofal a chymorth i ddinasyddion unigol, cynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn eu hardal ac mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector. Roedd galw am ddisgrifiad clir o sut y bydd cynigion yn galluogi cyd-gynhyrchu ystyrlon, ac am sgwrs ystyrlon barhaus â phobl am y cynigion, fel eu bod yn cael eu datblygu gyda phobl sy'n defnyddio neu a allai gael eu heffeithio gan newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu dylunio, eu cynllunio neu eu darparu.

Roedd yr ymatebion yn glir bod angen mecanweithiau cadarn er mwyn rhoi llais clir i ddinasyddion o ran sut maent yn cael eu cefnogi i alluogi pobl i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Roedd un ymateb trydydd sector yn credu bod angen i wasanaethau gael eu harwain fwy gan ddinasyddion a defnyddwyr lle mae cyd-gynhyrchu darpariaeth yn ganolog i'r broses asesu a darparu.

Ar ben hynny, roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen i bobl fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio gwasanaethau gofal a chymorth o'r cychwyn cyntaf. Roedd yr ymatebion yn disgrifio anghydbwysedd pŵer rhwng pobl sy'n derbyn gwasanaethau a'r rheini sy'n darparu neu'n cynnig mynediad at wasanaethau gofal a chymorth. Nododd ymateb gan fudiad trydydd sector, er bod llawer o sefydliadau yng Nghymru bellach yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio neu ddarparu gwasanaethau, ei bod yn ymddangos mai ôl-ystyriaeth yw hynny'n aml neu'n

ymarferiad ‘ticio blychau’ yn hytrach nag yn rhan annatod a dilys o’r broses. Argymhellwyd y dylid rhoi cylch gwaith clir o hyrwyddo cydgynhyrchu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a’r swyddfa genedlaethol, i ddarparu enghreifftiau o arferion effeithiol, ac i herio arferion sy’n parhau i eithrio llais y dinesydd. Dylai ddangos cydgynhyrchu yn ei weithgareddau ei hun, drwy sicrhau bod profiadau a safbwyntiau defnyddwyr a gofalwyr yn rhan bwysig o’i brosesau dysgu.

Yn gyffredinol, roedd pryderon ynghylch effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda’r trydydd sector, sy’n disgrifio eu hunain fel mudiadau sydd â gwybodaeth a’r cysylltiadau lleol sydd eu hangen i eirioli ar ran eu poblogaeth. Roedd yr ymatebion yn galw am unrhyw newid i sicrhau cydraddoldeb ymysg yr holl bartneriaid/rhanddeiliaid. Roedd ymateb gan gorff sy’n cynrychioli sefydliadau pobl hŷn, yn dweud bod rhai aelodau wedi nodi fod comisiynwyr yn amharod i ymgysylltu â nhw pan maent yn cysylltu i roi syniadau am wasanaethau y gellid eu datblygu mewn partneriaeth. Hyd yn oed wrth gysylltu â chomisiynwyr gyda gwasanaethau sydd wedi’u datblygu’n llawn y gellid eu cynyddu, maen nhw wedi camddehongli’r cysylltiadau hyn fel ceisiadau am gyllid yn unig, ac wedi’u gwrthod, yn hytrach nag ymgysylltu’n adeiladol a gwella gwasanaethau i’r bobl sydd eu hangen. Argymhellwyd y dylid cymryd camau i sicrhau gwell cyd-gynhyrchu gyda’r trydydd sector.

- Diwylliant ac arweinyddiaeth

“Mae’r her o greu dyfodol mwy cynaliadwy i ofal cymdeithasol yn dibynnu ar newid y diwylliant sy’n bodoli. Mae graddfa’r heriau sy’n wynebu’r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol yn aml mor fawr, fel na all un asiantaeth eu rheoli ar ei phen ei hun. Mae capasiti gan ystod eang o asiantaethau a mudiadau statudol, anstatudol, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ymateb i sawl agwedd ar yr heriau cymhleth hyn. Fodd bynnag, mae diffyg cydlynw ymysg gwahanol randdeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi arwain at y posibilrwydd o weithio’n groes i’w gilydd, cystadleuaeth am gyllid, dyblygu ymdrechion ac at arbedion maint yn is-optimaidd. Cyfeirir yn aml at ddiffyg cydlynw fel un o’r ffactorau sy’n cyfrannu at lwyddiant cyfyngedig a diffyg cynaliadwyedd. Mae profiad yn awgrymu fod rhai cynlluniau cenedlaethol addawol heb fod yn llwyddiannus iawn oherwydd methiant i gyflawni gweledigaeth a/neu berchnogaeth genedlaethol gref ar lefel leol a rhanbarthol. Mae’r rhanbarthau wedi ymdrechu i ddatblygu dulliau gweithredu pendant sydd â’r nod o feithrin mwy o gydlyniaeth, ac nid yw’n glir i ba raddau y cyflawnwyd hyn hyd yma. Fodd bynnag, os ydym am gael y gwelliannau cynaliadwy, a ragwelir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rhaid integreiddio’r model cynllunio a chydlynw yn well mewn un dull gweithredu ar draws y wlad. Mae angen newid diwylliannol mawr, ac mae angen yr un dewrder a chreadigrwydd ar gyfer hyn ag a ddangoswyd mor fedrus gan unigolion, cymunedau, sefydliadau a llywodraeth yn cydweithio ers dechrau’r pandemig. Rhaid i bartneriaeth gynnwys y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector preifat, gofal sylfaenol, pobl leol, grwpiau cymunedol a chael ei harwain gan ein cynrychiolwyr etholedig lleol. Dylai fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth, dylai fod â gwerthoedd, blaenoriaethau a chanlyniadau ar y cyd.”

I gefnogi’r datganiad hwn gan un ymatebydd, roedd nifer o’r ymatebion yn credu y bydd angen gweledigaeth ac arweinyddiaeth gref i drawsnewid y system i fod yn un sy’n cydweithredu go iawn er budd y dinasyddion a’r cymunedau. Roedd ymateb gan un cymdeithas dai o’r farn y dylid mynd ati i ystyried y newidiadau diwylliannol

cysylltiedig sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth a nodir yn y papur gwyn. Roedd ymateb gan y trydydd sector yn tynnu sylw at elfen hollbwysig o newid, sef annog pobl i ddysgu ac arbrofi'n barhaus. Roedd ymateb gan un awdurdod lleol yn credu y gallai ymddiried mewn perthynas rhwng darparwyr a chomisiynwyr ynghyd â pherthnasoedd personol cryf arwain at arloesi a chreu modelau gwasanaeth newydd i ddiwallu anghenion lleol. Er mwyn i'r cynigion lwyddo, argymhellwyd y byddai angen meithrin ac ailsefydlu'r cysylltiadau hyn fel rhan o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ychwanegodd un dinesydd fod manylebau / contractau'n gwneud cyfraniad ond ei bod yn bwysicach o lawer bod yr holl reolwyr a'u staff ymysg comisiynwyr a darparwyr yn deall sut y gallant ddarparu gofal a chymorth sy'n bersonol i'r unigolyn ac yn eu helpu i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

- Y gweithlu

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y gweithlu'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal o ansawdd uchel a chefnogi pobl agored i niwed ar draws y sector gofal cymdeithasol cyfan. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddinistriol ar lawer o bobl, os nad pawb, sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Dywedodd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru *"Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y gweithlu ar draws gofal cymdeithasol plant ac oedolion, gan gynnwys lles, datblygiad proffesiynol, recriwtio a chadw staff yn effeithiol. Rydyn ni'n falch iawn o'n staff sydd wedi ymateb yn anhunanol ac yn ddiflino i'r her o gefnogi pobl agored i niwed y wlad yn ystod y pandemig."*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen dybryd am fwy o gydraddoldeb rhwng gweithwyr gofal ieuchyd y GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyffredinol. O ran tâl, nodwyd mai un corff cyflog sy'n pennu tâl y GIG ond nad yw hynny'n wir am ofal cymdeithasol, ac roedd ymatebwyr yn credu bod angen i hyn newid. Roedd llawer o dystiolaeth ac ymchwil yn dangos bod cyflogau isel yn y sector yn arwain at drosiant uchel o ran staff ac anhawster recriwtio. Yn gyffredinol, teimlwyd bod angen sicrhau gweithlu sy'n cael ei werthfawrogi'n wirioneddol, sy'n cael yr un parch â gweithwyr y GIG ac sy'n cael eu gwobrwyo'n briodol am y gwaith amhrisiadwy maen nhw'n ei wneud ac sydd â llwybr at ddilyniant gyrfa mewn sector gofal proffesiynol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn galw am ei gyflwyno, gyda rhai'n nodi cysylltiadau rhwng comisiynu a chynaliadwyedd y gweithlu. Mae cais am ragor o fanylion am gynigion i ddatblygu cyfradd sylfaenol genedlaethol ar gyfer gwahanol fathau o ofal, i'w seilio ar fethodoleg y cytunwyd arni sy'n adlewyrchu gwir gost ddarparu'r gofal hwnnw, gyda chyflogau staff ar y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, a chyllid wedi'i gynnwys ar gyfer costau canolog rhedeg gwasanaethau, yn ogystal â hyfforddiant a chymorth priodol i staff.

Nododd rhai, er bod croeso cyffredinol i gyflwyno'r cerdyn gweithwyr gofal cymdeithasol a'r ddau daliad cydnabyddiaeth ychwanegol ar gyfer y staff gofal cymdeithasol, mynegwyd nad ydynt yn gwneud yn iawn am dâl ac amodau priodol a llwybr i ddatblygu o fewn sector gofal proffesiynol. Roedd y sylwadau hefyd yn cefnogi achos dros ddatblygu diwylliant dysgu sydd wedi'i gyfoethogi gan dystiolaeth ym maes gofal cymdeithasol. Mae dymuniad i weld y gefnogaeth i'r gweithlu'n cael ei hystyngi o ganolbwyntio ar gyflog ac amodau (sy'n cael eu gweld fel isafswm gan rai) i gynnwys ffocws ar gyfleoedd i hyfforddi, dysgu a datblygu gyrfa. Byddai hyn yn

golygu newid sylweddol yn y ffordd mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei weld, ei werthfawrogi a'i dalu.

Nododd ymatebwyr fod y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i wneud gwaith cefnogi yn gymhleth, gyda phenderfyniadau allweddol ynghylch lefelau'r meddyginiaeth sydd eu hangen ar ddefnyddwyr, er enghraifft, yn cael eu gwneud gan ofalwyr unigol o ddydd i ddydd. Roedd ymateb gan un undeb yn arbennig yn pwysleisio na ellir tanbrizio pwysigrwydd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru o ran yr effaith a gafodd ar hyfforddi a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol ac, o'r herwydd, mae angen cynnal y Gronfa hon i sicrhau y cyflawnir yr amcan o gael gweithlu proffesiynol medrus iawn.

Mae'r ymatebydd hwn hefyd yn credu y dylid cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i wella dealltwriaeth am y sector gofal a rolau gweithwyr gofal, gan gredu y byddai hyn yn helpu i ailsefydlu gwaith gofal er mwyn galluogi pobl i'w ddeall yn llawn, ac y bydd felly'n cael ei werthfawrogi a'i wobrwyo'n llawn. Roeddent hefyd o'r farn nad yw'n ymddangos bod y bri sy'n bodoli mewn gwasanaethau iechyd yn bodoli ym maes gofal cymdeithasol. Y canfyddiad fel arfer yw bod statws gweithwyr cymdeithasol yn is na'u cymheiriaid ym maes iechyd. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn llesteirio ymdrechion i gydweithio ac integreiddio. Fel y pwysleisiodd dau wasanaeth statudol amlwg, mae'r gweithlu gofal cymdeithasol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn parhau i fod yn bwysig ac yn wynebu heriau, yn enwedig yn ystod y pandemig.

Mae'r Papur Gwyn yn cael ei weld gan lawer fel cyfle i fynd i'r afael â'r materion pwysig sy'n ymwneud â'r gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae'r GIG yn elwa o staff sy'n cael eu recriwtio i swyddi gofal cymdeithasol lefel mynediad, yn aml ar yr isafswm cyflog. Maent yn derbyn hyfforddiant sylfaenol ac yn cael rhywfaint o brofiad sy'n eu galluogi i symud ymlaen i weithio yn y GIG, lle mae gwell strwythur gyrfa a thelerau ac amodau. Dylai cynllunio'r gweithlu fod yn gyfrifoldeb ar y cyd, gydag adnoddau priodol, fel y gellir rheoli'r broses o drosglwyddo staff rhwng y ddau sector, gyda chyfleoedd fel prentisiaethau a hyfforddiant ar y cyd yn cael eu hystyried.

- Taliadau Uniongyrchol

Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod y Papur Gwyn, yn ei ddisgrifiad o gymhlethdod y farchnad gofal cymdeithasol, yn cydnabod bod pobl sy'n comisiynu gofal a chymorth iddynt eu hunain yn rhan o'r darlun. Nodwyd hefyd yr anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu gyda'r cynllun taliadau uniongyrchol.

Fel yr eglurwyd, gall unigolyn ddefnyddio taliadau uniongyrchol i drefnu gofal cartref, er enghraifft drwy Gynorthwyydd Personol, yn hytrach na'r dull traddodiadol o gael gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ffordd mae'r rhain yn cael eu defnyddio yn amrywio ledled Cymru ac nifer isel o bobl sydd wedi bod yn eu defnyddio. Mae'n ymddangos fod taliadau uniongyrchol i bobl hŷn yn aml yn cael eu defnyddio fel dewis olaf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, pan nad yw darparwyr gofal cartref yn gallu darparu gofal, neu'n amharod i wneud. O'r herwydd, rhaid i'r trefniadau comisiynu newydd gynnwys darpariaethau i helpu mwy o bobl hŷn, gan gynnwys gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia, i elwa o hyblygrwydd taliadau uniongyrchol heb gael eu llethu gan gyfrifoldebau anghyfarwydd a beichus ar ben y

materion sydd eisoes yn creu trafferth iddynt.

Gan nodi bod taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n bennaf i gyflogi Cynorthwyr Personol, galwodd darparwyr annibynnol i'r unigolion hyn gael eu cofrestru gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Wrth ofyn am hyn, fodd bynnag, gwnaed y sylw hefyd, gan fod angen i Gynorthwyr Personol allu gweithio'n ddiogel, bod yn adnabyddadwy, a bod angen eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau, na ddylid cael safon dwbl o ran triniaeth reoleiddiol Cynorthwyr Personol o'i gymharu â gweithwyr gofal eraill.

Roedd un mudiad trydydd sector yn annog pobl i fanteisio ar daliadau uniongyrchol ac ystyried potensial Cronfeydd Gwasanaeth Unigol i roi'r gallu i bobl ddylunio eu pecynnau gofal a chymorth eu hunain, er mwyn sicrhau canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Galwodd rhai hefyd i daliadau uniongyrchol gael eu defnyddio fel cyfraniad tuag at Ofal Iechyd Parhaus (CHC).

- Y Gymraeg

Cyfeiriodd tri awdurdod at y Gymraeg, gydag un yn dweud bod y problemau recriwtio a chadw staff ar draws y sector yn amharu'n fawr ar y cymorth sydd ar gael yn Gymraeg. Tynnodd awdurdod lleol arall sylw at y ffaith bod fframwaith strategol "Mwy na Geiriau" Llywodraeth Cymru i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg i gleifion mewn lleoliadau gofal yn rhan annatod o'r gofal a ddarperir iddynt. Tra'n croesawu'r pwyslais ar y Gymraeg, roedd yr awdurdod olaf o'r farn bod angen diffinio ystyriaethau ynghylch anghenion llesiant trigolion amrywiol Cymru, fel y manylir yn nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldebau.

Cytunodd mudiad iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg y dylid cynnal adolygiad llawn o effaith y cynigion ar y Gymraeg. Nodwyd bod angen newid gwirioneddol er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch amlwg hwn yn y ddarpariaeth. Nododd sefydliad trydydd sector arall y bydd gweithlu cynaliadwy sy'n siarad Cymraeg hefyd yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, yn enwedig pan fydd pobl yn wynebu heriau cyfathrebu. Aethant ati i nodi pwysigrwydd sicrhau bod pobl sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu denu a'u cadw o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Roeddent yn awgrymu mapio anghenion, gyda thâl priodol a chyfleoedd datblygu gyrfa i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gweld gyrfa mewn gofal cymdeithasol ac yn aros yn eu cymunedau i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Yn olaf, cyfeiriodd cynrychiolydd o'r gymdeithas iechyd cymuned at y sylwadau a wnaed yn adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru nad yw rhai preswylwyr yn cael gofal gyda'r urddas y maent yn ei haeddu, yn enwedig o ran cael gofal yn eu hiaith gyntaf. Pryd/lle bynnag y bo modd, dylai'r rota gynnwys siaradwr Cymraeg ar gyfer pob shift. Roeddent yn credu ei bod yn haws darparu gwasanaethau Cymraeg yng nghartref y claf ei hun nag mewn cartref gofal, gan fod nifer sylweddol o weithwyr gofal cartref yn bobl sy'n byw yn y gymuned leol, tra bod dibyniaeth yn y sector gofal preswyl ar ddefnyddio set lai o staff gofal.

- Cyllid

Y prif sylw a fynegwyd gan yr ymatebwyr amrywiol yw mai cyllid cynaliadwy yw'r her fwyaf dybryd sydd angen mynd i'r afael â hi. Nodwyd bod y model cyllido presennol yn annigonol ac mae galwadau fod gwir angen i fuddsoddi amser ac adnoddau er mwyn rhoi cydlyniaeth i'r cwestiwn cyllido hirdymor a dylunio system sy'n gallu diwallu unrhyw ofynion newydd ac ychwanegol y bydd gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yn y dyfodol yn effeithiol. Mynegwyd rhybudd y gallai'r cynigion, heb ateb cynaliadwy a digonol i'r argyfwng cyllido ym maes gofal cymdeithasol, greu beichiau ariannol a gweinyddol ychwanegol ar y sector heb greu'r cyllid i fynd i'r afael â hyn. Roedd ymatebwyr yn credu fod risg wirioneddol y bydd y cynigion yn tarfu ar y farchnad heb fynd i'r afael â'r mater mwyaf dybryd. Er eu bod yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i lobïo Llywodraeth y DU i gyflawni ei haddewid i fynd i'r afael â heriau gofal cymdeithasol, nodwyd na fydd modd cyflawni llawer o amcanion y papur ymgynghori os na fydd yr ymdrechion hyn yn llwyddo.

Credai rhai ei bod yn rhy gynnar i gyflwyno Papur Gwyn ar gyfer ymgynghori arno heb gael canfyddiadau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn glir pam fod y Papur Gwyn yn cynnig ystyried cyllid drwy Grŵp Talu am Ofal ar wahân, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd canolog y fframwaith ariannol, a pha mor fregus yw'r sector gofal cymdeithasol. Cydnabyddir yr angen i greu dull fforddiadwy a chynaliadwy o ariannu gofal cymdeithasol, ond roedd rhai'n credu bod perygl fod ystyried cyllid fel llinyn gwaith ar wahân yn colli cyfle i ystyried model sydd nid yn unig yn canolbwyntio ar ansawdd a gwerth, ond hefyd yn gadarn, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Credai ymatebwyr, bod y cynnig yn debygol o fethu cyflawni ei nodau heb gyllid penodol i'w gefnogi – sef dull cydweithredol a chreadigol o ariannu gofal cymdeithasol, gan gynnwys opsiynau ynghylch defnyddio derbyniadau treth a chynllunio ariannol strategol sy'n para'n hirach na thymhorau llywodraeth leol a chenedlaethol. Roedd ymateb un dinesydd yn rhannu'r farn hon, ac roedd yn credu y dylid symud y ffocws ar y farchnad gofal a chymorth tuag at ddarpariaeth gyhoeddus. I gefnogi hyn, roeddent yn credu bod angen trafodaeth genedlaethol ynghylch sicrhau cyllid priodol ar gyfer gofal cymdeithasol drwy drethi cyffredinol.

Ar hyn o bryd, roedd nifer o ymatebwyr yn gweld darparu cyllid grant fel ateb tymor byr, ac yn aml roedd ond yn cael ei gadarnhau yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Soniwyd hefyd am natur "rhagorol" rhai rhaglenni megis Dechrau'n Deg, yn enwedig gan awdurdodau lleol a fyddai'n dymuno cael mwy o ymreolaeth dros y ffordd y maent yn defnyddio eu rhaglenni grant gyda'r nod o weithredu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth (neu eu datblygu os nad ydynt yn bodoli eisoes). Roedd cyllid tymor byr yn cael ei ystyried yn gyfyngol o ran gallu gwreiddio gwasanaethau mewn cymunedau ac i'r rheini maen nhw'n ceisio eu cefnogi. Mae cyllid un flwyddyn yn arbennig o ddrud a gall fod bron yr un mor niweidiol i bobl agored i niwed â pheidio â chael gwasanaeth o gwbl. Nodwyd effaith ar y gallu i ddod o hyd i gyllid ar gyfer cynlluniau ataliol, a hefyd yn arwain at broblemau mewn perthynas â staffio. Mae contractau cyllido tymor byr yn arwain at drosiant uchel o staff ac yn tynnu'r ffocws oddi ar ansawdd y gwasanaeth i ddefnyddwyr ac ar recriwtio.

Codwyd y mater staffio hwn ymhellach gan ymatebydd o'r trydydd sector sy'n dweud nad yw'r system bresennol yn darparu digon o gyllid i gomisiynwyr dalu ffioedd a fyddai'n caniatáu i ddarparwyr dalu cyflogau ar lefel sy'n adlewyrchu gwerth a

chanlyniadau'r gwaith y mae'r gweithlu gofal yn ei gyflawni i ddinasyddion. Roeddent yn gweld mai cost oedd yn gyrru'r system, yn hytrach na gwerth a'r canlyniadau y mae gofal cymdeithasol yn eu darparu i unigolion a chymunedau.

Dywedodd un awdurdod lleol ei bod yn hanfodol i raglen buddsoddi cyfalaf a ariennir yn gyhoeddus roi sylw i faterion yn y farchnad cartrefi gofal (yn debyg i'r flaenoriaeth a roddir i'r rhaglen moderneiddio ysgolion) a fydd yn galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i fuddsoddi'n strategol. Roeddent yn gweld bod y trawsnewid sy'n ofynnol ar gyfer y sector cartrefi gofal i bobl hŷn gryn dipyn yn fwy na'r hyn sy'n ymarferol o fewn rheswm drwy'r adnoddau cyfalaf presennol.

Yn olaf, gwnaed y pwynt bod angen newidiadau sylfaenol, sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu'n llawn y sefyllfa lle mae iechyd a gofal cymdeithasol yn bartneriaid cyfartal yn y dyhead o ddarparu un system iechyd a gofal cymdeithasol ddi-fwlch i Gymru. Wedi dweud hynny, cydnabuwyd na fydd cyllid ar ei ben ei hun yn ddigon i fynd i'r afael â'r holl heriau presennol, a bod yn rhaid ymrwymo i weledigaeth flaengar ar gyfer gofal cymdeithasol – sy'n cyfleu'n glir y rôl hanfodol sydd gan ofal cymdeithasol mewn cymdeithas. System ofal a chymorth fwy ataliol, sy'n seiliedig ar asedau, sy'n hygyrch, wedi'i chyd-gynhyrchu ac sy'n fwy cydgysylltiedig.

- Diwygio Caffael

Cyfeiriodd un awdurdod at yr agwedd hon a thynnu sylw at nifer o faterion, sef; un o'r rhwystrau mwyaf yw cymhlethdod rheolau caffael contractau lleol ac anghysondebau o ran sut mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (PCR) 2015 yn cael eu dehongli'n lleol. Mynegodd ymateb gan un undeb bryder ynghylch sut y bydd deddfwriaeth y DU ar gaffael yn rhyngweithio â deddfwriaeth ar lefel Cymru. Roedden nhw'n credu y gallai deddfwriaeth y DU ar ddiwygio caffael wrth-wneud bwriadau'r Papur Gwyn hwn i bob pwrpas, yn enwedig gan fod arwyddion cynnar yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dilyn glasbrint caffael San Steffan.

- Eiriolaeth

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn credu ei bod yn hanfodol i gomisiynu gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol er mwyn helpu i sicrhau bod pobl yn cael gwybod am eu hawliau ac yn cael mynediad atynt, er mwyn hyrwyddo hawliau dynol a rhaid iddo hefyd fod yn ystyriaeth i gomisiynwyr. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn gwybod pa hawliau sydd ganddynt a sut i'w harfer. Mae un gwasanaeth statudol blaenllaw yn rhannu'r farn hon, ac yn gweld mynediad at eiriolaeth annibynnol yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i fod yn ganolog i benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth eu hunain, a bod ganddynt lais a rheolaeth.

Dywedodd un sefydliad trydydd sector na fydd deddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael eu cyflawni yn yr ysbryd y cawsant eu bwriadu, oni bai y buddsoddi mewn gwasanaethau fel hunan-eiriolaeth, darpariaeth eiriolaeth arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a dulliau gweithredu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau. Maent yn dweud mai hunan-eiriolaeth yw'r math gorau o eiriolaeth a'r prif wasanaeth ataliol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Hebdo, maent yn rhybuddio mai canlyniad anfwriadol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fydd mynd â llais pobl ag anableddau dysgu yn ôl i sefyllfa 'Strategaeth Anfantais Meddwl

Cymru Gyfan' 1983.

Atodiad A – Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

Nid yw'r Atodiad hwn yn cynnwys yr ymatebwyr hynny a ofynnodd am gael aros yn ddienw.

1. Gwasanaethau Statudol

Cymdeithas Archifau a Chofnodion
Cyngor Sir Ceredigion
Y Grŵp Cyngori Gwyddonol Sefydlog ar Awdioleg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cyngor Sir Powys
Arolygiaeth Gofal Cymru
Cyngor Gwynedd
Cynrychiolwyr Dinasyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys
Comisiynydd Plant Cymru
Health Education and Improvement Wales
Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
BIP Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Ymateb Gofal Iechyd Sosialaidd Cymru
Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwent
Bwrth Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol De-ddwyrain Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
Cyngor Abertawe
Cyngor Sir Caerfyrddin
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
Archwilio Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Sir y Fflint
 Cyngor Dinas Casnewydd
 Practice Solutions
 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
 Y Comisiwn Hawliau Dynol
 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
 Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru
 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
 Gofal Cymdeithasol Cymru
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
 Conffederasiwn GIG Cymru
 Cyngor Iechyd Cymuned Cymru
 BIP Aneurin Bevan
 Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
 Aelodau Cabinet Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles CLILC
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 Comisiynydd y Gymraeg
 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
 Bay UHB Swansea
 Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd
 Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf
 Consortiwm Comisiynu Plant Cymru
 Iechyd a Gofal Gwledig Cymru

2. Trydydd Sector

Shine Cymru
 Shared Lives Plus
 Tîm Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru
 Shared Lives Plus
 Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
 Age Connects Morgannwg
 Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
 Fforwm Pensiynwyr Cymru
 Senedd Pobl Hŷn Cymru
 Cymdeithas Tai Linc Cymru
 Y Groes Goch Brydeinig
 Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
 Steddy Ltd
 Cartrefi Cymunedol Cymru
 Grŵp Pobl
 Cymdeithas yr Ysbytai Cymunedol
 Cwmni Cydweithredol Cartrefi Cymru
 Mencap Cymru
 Hafal
 Cyngor Cymreig Cymdeithas Geriatreg Prydain
 Hospice UK
 Age Cymru

Cymdeithas Alzheimers Cymru
 Barnardos/Gweithredu dros Blant/NSPCC Cymru
 Anheddau Cyf
 CGGC
 Canolfan Cydweithredol Cymru
 Iechyd a Gofal Gwledig
 Anabledd Cymru
 Credu
 Gofal a Thrwsio Cymru
 Cynghrai Henoed Cymru
 ClwydAlyn
 Tai Hafod
 Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
 Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru
 Wales Vision Forum
 Gofalwyr Cymru
 Cyswllt Conwy
 Cymorth Cymru
 Calon Y Cymoedd
 Cymorth i Ferched Cymru
 Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru
 Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
 Dyfodol i'r Iaith
 Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu
 Leonard Cheshire Cymru

3. Unigolion/Sector Annibynnol/Academaidd/Undebau Llafur

Tony Sawyer
 Sam Haywood
 Penny Lloyd
 John Morgan
 Ruth Sharratt
 Flynn ac Eley Associates Ltd
 Undeb Unite – Cyn Gangen Undeb Gogledd Orllewin Cymru
 DEEP Cymru
 Yr Athro Lorraine Morgan
 Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru
 Prifysgol Birmingham
 Cartref Preswyl Oaklands
 HC-One
 MHC (UK) Ltd
 Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig
 UNISON Cymru Wales
 BASW (CYMRU)
 Fforwm Gofal Cymru
 Fforwm Darparwyr Cenedlaethol (Cymru)
 Rheolwyr Gofal Cartref
 Cwmni Buddiannau Cymunedol Awtistiaeth-DU (Cymru)

Cymdeithas Genedlaethol y Darparwyr Maethu